Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig**

# Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru): Adroddiad Cyfnod 1

Rhagfyr 2019



www.cynulliad.cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol: **www.cynulliad.cymru/SeneddNHAMG**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddNHAMG@cynulliad.cymru**
Twitter: **@SeneddNHAMG**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig**

# Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru): Adroddiad Cyfnod 1

Rhagfyr 2019

www.cynulliad.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 28 Mehefin 2016. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.cynulliad.cymru/SeneddNHAMG

## Cadeirydd y Pwyllgor:



**Mike Hedges AC**
Llafur Cymru

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Andrew RT Davies AC**
Ceidwadwyr Cymreig



**Llyr Gruffydd AC**
Plaid Cymru



**Neil Hamilton AC**
UKIP Cymru



**Jenny Rathbone AC**
Llafur Cymru



**Joyce Watson AC**
Llafur Cymru

# Cynnwys

**Argymhellion** .......... 5

**1. Cyflwyniad** .......... 7

**2. Cefndir polisi a deddfwriaethol** .......... 9

**3. Yr angen am ddeddfwriaeth a'r dull a ddefnyddiwyd** .......... 12

**4. Cwmpas y gwaharddiad** .......... 24

**5. Termau allweddol** .......... 29

**6. Gorfodi** .......... 38

**7. Diwygiadau sy'n ymwneud â thrwyddedu syrcasau** .......... 42

**8. Dod i rym** .......... 43

**9. Effaith y gwaharddiad ar anifeiliaid** .......... 44

**Atodiad A: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig** .......... 46

**Atodiad B: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar** .......... 48

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn unfrydol yn ei gefnogaeth barhaus i les pob anifail. Fodd bynnag, nid ydym wedi gallu dod i farn unfrydol ynghylch p'un a ddylai'r Bil hwn symud yn ei flaen. Mae mwyafrif o aelodau'r Pwyllgor yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil. Rydym yn argymell bod y Cynulliad yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil. ........ Tudalen 23

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell bod y Gweinidog yn darparu eglurhad mwy cynhwysfawr am y canlynol:

- pam nad yw cwmpas y gwaharddiad yn ymestyn i anifeiliaid gwyllt sy'n teithio gyda syrcasau teithiol;
- pam mae'r ddadl foesegol dros wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau sefydlog yn llawer gwannach nag ar gyfer syrcasau teithiol; a
- pham nad yw'r ddadl foesegol dros wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yr un mor berthnasol i anifeiliaid wedi'u domestigeiddio. ........ Tudalen 28

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell bod y Bil yn cael ei ddiwygio i gynnwys darpariaeth i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau statudol i gefnogi'r broses o weithredu'r gwaharddiad. Dylai'r canllawiau hyn gael eu datblygu ar y cyd â rhanddeiliaid perthnasol, a'u cyhoeddi i gyd-fynd â dyddiad dod i rym y Bil. ........ Tudalen 33

**Argymhelliad 4.** Rydym yn argymell bod canllawiau statudol i gefnogi'r broses o weithredu'r gwaharddiad yn cynnwys canllawiau cynhwysfawr ar ystyr "anifail gwyllt" ac "wedi eu domestigeiddio". Dylai hyn gynnwys enghreifftiau o'r mathau o anifeiliaid a fydd, ac na fyddant yn cael eu hystyried yn "wyllt". ........ Tudalen 33

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell bod canllawiau statudol i gefnogi'r broses o weithredu'r Bil yn cynnwys canllawiau cynhwysfawr ar ystyr "syrcas deithiol" a'r mathau o ymgymeriad, gweithred o adloniant sydd i'w ystyried, neu nad yw'n cael ei ystyried, fel syrcas deithiol. Rhaid bod gwahaniaeth clir rhwng syrcasau teithiol ac Arddangosfeydd Teithiol o Anifeiliaid. ........ Tudalen 37

**Argymhelliad 6.** Rydym yn argymell bod canllawiau statudol i gefnogi'r broses o weithredu'r Bil yn cynnwys canllawiau cynhwysfawr ar pryd y byddai "arddangos" anifeiliaid gwyllt y tu allan i brif arena'r syrcas mewn modd llai anffurfiol yn

drosedd. Rhaid i'r canllawiau egluro na fyddai anifeiliaid gwyllt sydd yn yr awyr agored at ddibenion cyfreithlon ond sy'n weladwy gan y cyhoedd, yn drosedd. ........................ Tudalen 41

**Argymhelliad 7.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod syrcasau sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y newidiadau mewn gofynion trwyddedu sy'n deillio o Adran 8 y Bil yn ymwybodol o'r newidiadau hynny, ac yn deall eu goblygiadau. ........................ Tudalen 42

**Argymhelliad 8.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adrodd yn ôl ar drafodaethau gyda DEFRA ynghylch y gefnogaeth a'r cyngor a fydd ar gael ar gyfer dwy syrcas deithiol y DU ynghylch opsiynau ar gyfer ailgartrefu eu hanifeiliaid gwyllt yn dilyn y gwaharddiad. ........................ Tudalen 45

# 1. Cyflwyniad

**1.** Ar 8 Gorffennaf 2019, cyflwynodd Lesley Griffiths AC, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig (y Gweinidog), y Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru) (y Bil) i'r Cynulliad. Gwnaed Datganiad Deddfwriaethol ar y Bil ar 9 Gorffennaf.

**2.** Cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Bil i'r Pwyllgor hwn ar gyfer craffu arno yng Nghyfnod 1, gyda dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad yn ei gylch ar 6 Rhagfyr 2019.

## Diben y Bil a'r effaith y bwriadwyd iddo'i chael

**3.** Amcan polisi y Bil yw gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yng Nghymru.

**4.** Mae'r Bil yn ceisio ei gwneud yn drosedd i anifail gwyllt (a ddiffinnir yn adran 3 o'r Bil) gael ei ddefnyddio mewn syrcas deithiol (a ddiffinnir yn adran 4). Caiff anifail gwyllt ei ddefnyddio os yw'r anifail yn "perfformio" neu'n "cael ei arddangos". Byddai'r drosedd yn cael ei chyflawni gan y person sy'n weithredwr (a ddiffinnir yn Adran 2) y syrcas deithiol os yw'n defnyddio anifail gwyllt yn y syrcas deithiol, neu'n peri neu'n caniatáu i berson arall wneud hynny. Mae person sy'n euog o drosedd o'r fath yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy.

**5.** Ni fydd y Bil yn effeithio ar y defnydd o anifeiliaid wedi'u domestigeiddio mewn syrcasau teithiol, nac yn atal defnyddio anifeiliaid gwyllt ar gyfer adloniant mewn lleoliadau eraill, gan gynnwys syrcasau sefydlog.

## Cylch gorchwyl y Pwyllgor

**6.** Wrth graffu ar y Bil, ystyriodd y Pwyllgor:

- egwyddorion cyffredinol y Bil ac a oes angen deddfwriaeth er mwyn cyflawni'r amcanion polisi a nodwyd;
- darpariaethau'r Bil, yn benodol, mewn perthynas â:
    i. gwahardd y defnydd o anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol (gan gynnwys yr ystyron a nodir yn Adrannau 2 i 4);
    ii. y pwerau gorfodi (yr Atodlen); a'r
    iii. diwygiadau sy'n ymwneud â thrwyddedu syrcasau (Adran 8);

- a oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Bil;
- goblygiadau ariannol y Bil (fel y nodir yn Rhan 2, Adran 8 y Memorandwm Esboniadol);
- priodoldeb y pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth (fel y nodir ym Mhennod 1, Adran 5 y Memorandwm Esboniadol).

## Ymagwedd y Pwyllgor at graffu

**7.** Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 12 Gorffennaf a 23 Awst. Cafwyd sesiynau tystiolaeth lafar gydag ystod o dystion allanol, gan gynnwys academyddion, cynrychiolwyr o'r diwydiant syrcas, a sefydliadau lles anifeiliaid. Cynhaliwyd dwy sesiwn dystiolaeth gyda'r Gweinidog. Mae manylion am y rhain ar gael ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

**8.** Defnyddiwyd bwrdd trafod ar-lein i gynnwys y cyhoedd yn ehangach yn ein gwaith. Gyda chymorth Timau Ymgysylltu â Dinasyddion ac Addysg ac Ymgysylltu â Phobl Ifanc y Cynulliad, gwnaethom hefyd geisio barn plant a phobl ifanc drwy drafodaethau grwpiau ffocws. Mae'r crynodeb o ganlyniadau'r rhain wedi helpu i lywio'r adroddiad hwn.

**9.** Hoffem ddiolch i bawb a gyfrannodd i'n gwaith.

## Pwyllgorau eraill y Cynulliad yn craffu ar y Bil

**10.** Cafodd Pwyllgor Cyllid a Phwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Cynulliad dystiolaeth gan y Gweinidog ar eu meysydd priodol o ddiddordeb.

**11.** Ysgrifennodd y Pwyllgor Cyllid at y Pwyllgor hwn yn nodi ei farn ar oblygiadau ariannol y Bil. Nodwn farn y Pwyllgor Cyllid.

**12.** Bydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn cyhoeddi ei adroddiad ar y Bil cyn dyddiad cau Cyfnod 1 ar gyfer adrodd, sef 6 Rhagfyr 2019.

# 2. Cefndir polisi a deddfwriaethol

## 2. 1. Syrcasau teithiol yng Nghymru

**13.** Ar hyn o bryd nid oes syrcasau yng Nghymru yn defnyddio anifeiliaid gwyllt, ond mae syrcasau o wledydd eraill yn ymweld, a gallant ddefnyddio anifeiliaid gwyllt yn gyfreithlon yn eu perfformiadau.

**14.** Yn Lloegr, mae dwy syrcas deithiol yn defnyddio anifeiliaid gwyllt: Circus Mondao a Peter Jolly's Circus. Mae'r ddwy yn ymweld â Chymru yn rheolaidd. Yn ôl Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) Llywodraeth y DU, ar ddiwedd 2017, roedd gan y syrcasau hyn gyfanswm o 19 o anifeiliaid gwyllt.

## 2. 2. Galwadau am waharddiad

**15.** Mae'r cyhoedd a sefydliadau'r trydydd sector wedi mynegi pryder ynghylch lles rhai anifeiliaid a gedwir mewn amodau syrcas deithiol. Ymhlith y pryderon mae addasrwydd a maint llety dros dro, newidiadau mewn ymddygiad arferol, perfformio triciau "annaturiol" ac effaith cludo'n aml.

**16.** Yn ogystal â materion canfyddedig o ran lles, mynegwyd pryderon bod perfformiad annaturiol anifeiliaid gwyllt ar gyfer adloniant dynol yn arfer hen ffasiwn, ac nad yw'n dderbyniol yn foesegol mwyach.

**17.** Er mis Hydref 2015, mae Pwyllgor Deisebau'r Cynulliad wedi cael tair deiseb yn galw am waharddiad.

## 2. 3. Deddfwriaeth lles anifeiliaid yng Nghymru

**18.** Er nad oes unrhyw reoliadau penodol ar gyfer lles anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yng Nghymru, mae eu lles yn dod o dan gwmpas deddfwriaeth ehangach ar les anifeiliaid, gan gynnwys Deddf Lles Anifeiliaid 2006 *('Deddf*

*2006)*[1], Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) (Cymru) 2007[2], a Deddf Anifeiliaid Perfformio (Rheoleiddio) 1925[3].

**19.** Ym mis Awst 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei fersiwn ddrafft o Reoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Arddangosfeydd Anifeiliaid) (Cymru) 2020 (Rheoliadau drafft 2020), ar gyfer ymgynghoriad. Caiff y Rheoliadau eu cyflwyno o dan Ddeddf 2006.

**20.** Yn ôl Llywodraeth Cymru:

> "Mae'r Rheoliadau drafft yn darparu cynllun trwyddedu ar gyfer pob arddangosfa anifeiliaid a leolir yng Nghymru ac sy'n ymweld â Chymru sy'n bodloni meini prawf penodol; mae'n caniatáu gwneud gwiriadau i sicrhau bod safonau da o les yn cael eu cynnal lle mae anifeiliaid yn cael eu cadw, wrth iddynt gael eu cludo ac yn ystod arddangosfeydd."[4]

**21.** Bydd y cynllun arfaethedig ar gyfer trwyddedu arddangosfeydd anifeiliaid yn cynnwys cadw, hyfforddi ac arddangos anifeiliaid yng Nghymru pan fo'r anifeiliaid hynny'n cael eu defnyddio i'w harddangos at ddibenion addysgol neu adloniant. Gall arddangosfeydd anifeiliaid arddangos anifeiliaid domestig a rhai gwyllt, a gallant gynnwys arddangosfeydd anifeiliaid anwes egsotig, arddangosfeydd heboga, syrcasau sefydlog a digwyddiadau ceirw.

## 2. 4. Deddfwriaeth yng ngwledydd eraill y DU

**22.** Yr Alban oedd y cyntaf o wledydd y DU i wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol. Daeth Deddf Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau Teithiol (Yr Alban) 2018[5] i rym ym mis Ionawr 2018.

**23.** Yn Lloegr, mae angen trwydded ar syrcasau gydag anifeiliaid gwyllt o dan Reoliadau Lles Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol (Lloegr) 2012[6] (Rheoliadau

---

[1] Mae Deddf Lles Anifeiliaid 2006 yn ymdrin â lles pob anifail ag asgwrn cefn. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn drosedd i fethu â darparu ar gyfer anghenion lles yr anifail ac achosi unrhyw boen neu ddioddefaint diangen i anifail.

[2] Mae Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) (Cymru) 2007 yn ei gwneud yn drosedd cludo unrhyw anifail mewn ffordd sy'n achosi, neu'n debygol o achosi, anaf neu ddioddefaint diangen i'r anifail.

[3] Mae Deddf Anifeiliaid Perfformio (Rheoleiddio) 1925 yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw un sy'n hyfforddi neu'n arddangos anifeiliaid gofrestru gydag awdurdod lleol a darparu manylion am yr anifeiliaid dan sylw.

[4] https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-08/arddangosfeydd-anifeiliaid-dogfen-ymgynghori.pdf

[5] www.legislation.gov.uk/asp/2018/3/contents

[6] www.legislation.gov.uk/ukdsi/2012/9780111527832/contents

2012). Mae'r Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i bob gweithredwr syrcas deithiol yn Lloegr sy'n defnyddio anifeiliaid gwyllt gael ei drwyddedu. Mae sawl amod y mae'n rhaid i weithredwyr syrcas gydymffurfio â hwy, gan gynnwys cyflwyno rhaglenni ar gyfer teithiau sy'n rhoi manylion am leoliad y syrcas a'i hanifeiliaid ar bob amser. Mae syrcasau trwyddedig yn derbyn archwiliadau rheolaidd i wirio eu cydymffurfiad ag amodau'r drwydded. Disgwylir i Reoliadau 2012 ddod i ben ym mis Ionawr 2020.

**24.** Mae Deddf Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau 2019[7] Llywodraeth y DU yn cyflwyno gwaharddiad ar ddefnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yn Lloegr a bydd yn dod i rym ym mis Ionawr 2020, pan ddaw Rheoliadau 2012 i ben.

**25.** Mae Lloegr a'r Alban wedi cyflwyno'r gwaharddiad ar sail foesegol.

[7] www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2019/24/contents/enacted/data.htm

# 3. Yr angen am ddeddfwriaeth a'r dull a ddefnyddiwyd

**26.** Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio cyflwyno gwaharddiad ar seiliau moesegol drwy Fil.

**27.** Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil yn nodi cyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros waharddiad ar sail foesegol, sef:

- nid syrcasau yw'r unig gyfle sydd gan bobl mwyach i weld anifeiliaid gwyllt;
- mae defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yn codi pryderon ynghylch urddas anifeiliaid ac mae'n fwyfwy anodd cyfiawnhau cadw anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol a disgwyl iddynt berfformio triciau; ac
- mae barn gref na ellir diwallu anghenion lles anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol ac mae pobl Cymru a mudiadau'r trydydd sector wedi bod yn lobïo o blaid gwahardd yr arfer.[8]

## Tystiolaeth yr ymatebwyr

### 3. 1. Trosolwg

**28.** Cafwyd safbwyntiau gwahanol gan ymatebwyr ynghylch yr angen am y Bil. Dadleuodd y rhai sy'n cefnogi'r Bil na ellir diwallu anghenion penodol anifeiliaid gwyllt mewn amgylchedd syrcas deithiol. Roeddent yn honni bod defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yn hen ffasiwn ac yn anfoesol. Roeddent yn credu mai'r unig ffordd i fynd i'r afael â phryderon o ran lles a phryderon moesegol oedd drwy waharddiad.

**29.** Dadleuodd y rhai sy'n gwrthwynebu'r Bil fod gwaharddiad ar ddefnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yn anghymesur, o ystyried maint y broblem a'r diffyg tystiolaeth ar gyfer pryderon o ran lles anifeiliaid. Roeddent yn credu bod y gwaharddiad yn annheg, yn anghyfiawn ac o bosibl yn wahaniaethol. Awgrymwyd y dylid rheoleiddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol o dan gynllun trwyddedu tebyg i'r un sydd ar waith ar hyn o bryd yn Lloegr.

[8] www.assembly.wales/laid%20documents/pri-ld12632-em/pri-ld12632-em-w.pdf

## 3. 2. Ystyriaethau moesegol

**30.** Dadleuodd llawer o'r ymatebwyr sy'n gwrthwynebu'r gwaharddiad mai'r prif reswm yr oedd Llywodraeth Cymru yn deddfu ar sail foesegol oedd y diffyg tystiolaeth o bryderon o ran lles. Pwysleisiodd rhai fod moeseg yn oddrychol ac y dylai fod gan unigolion yr hawl i ddewis a ddylid ymweld â syrcasau teithiol sy'n defnyddio anifeiliaid gwyllt ai peidio.

**31.** Honnodd yr Athro Ron Beadle (Prifysgol Northumbria) mai un o'r cwestiynau allweddol wrth ystyried gwaharddiad ar seiliau moesegol yw p'un a yw defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yn cael effeithiau mor sylweddol, pellgyrhaeddol a hynod negyddol fel eu bod yn gwarantu gwaharddiad ac felly'n mynd yn groes i egwyddor foesegol, hynny yw rhyddid y dinesydd, rhywbeth sydd ac y mae'n rhaid iddo fod yn gyffredinol.[9]

**32.** Er gwaethaf eu barn ar y dull a ddefnyddiwyd i ddeddfu, dadleuodd llawer o'r ymatebwyr nad oedd yr achos dros waharddiad ar sail foesegol wedi'i wneud. Tynnwyd sylw hefyd at y ffaith y gallai'r cyfiawnhad moesegol a ddarperir i gefnogi gwaharddiad gael ei gymhwyso i anifeiliaid a ddefnyddir mewn lleoliadau eraill, er enghraifft, hebogyddiaeth a rasio ceffylau.

**33.** Eglurodd yr Athro Beadle:

> "…to claim that some decision, some result of reasoning, and indeed some piece of legislation, has an 'ethical' basis, is to claim that its exercise should have universal application."[10]

**34.** Yn ôl yr Athro Beadle, nid yw Llywodraeth Cymru yn darparu unrhyw ddadleuon moesegol cadarn dros y gwaharddiad ar anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau nad ydynt yr un mor berthnasol i bob ffordd y mae pobl yn trin anifeiliaid.[11] Mynegodd bryder nad oedd cydlyniant yn null Llywodraeth Cymru.

**35.** Ni waeth beth oedd eu safbwynt ar waharddiad, awgrymodd rhai o'r ymatebwyr, gan gynnwys Thomas Chipperfield (hyfforddwr anifeiliaid)[12] a Born Free Foundation[13] (BFF), ei bod yn anodd gwahanu ystyriaethau o ran lles anifeiliaid ac ystyriaethau moesegol wrth bennu'r sail dros waharddiad.

---

[9] Tystiolaeth ysgrifenedig WA 10, yr Athro Ron Beadle

[10] Tystiolaeth ysgrifenedig WA 10, yr Athro Ron Beadle

[11] Tystiolaeth ysgrifenedig WA 10, yr Athro Ron Beadle

[12] Tystiolaeth ysgrifenedig WA 24, Thomas Chipperfield

[13] Tystiolaeth ysgrifenedig WA 06, Born Free Foundation

## Barn y cyhoedd

**36.** Nododd sefydliadau lles anifeiliaid gefnogaeth gref gan y cyhoedd i waharddiad. Cyfeiriodd rhai at ganlyniadau ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru ar waharddiad a pholau piniwn cyhoeddus fel tystiolaeth o hyn. Er enghraifft, canfu arolwg a gynhaliwyd gan BFF yn 2018 fod 79.77 y cant o ymatebwyr y DU yn cytuno y dylid gwahardd anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau.[14] Canfu Pôl YouGov yn 2014 ar gyfer RSPCA Cymru fod 74 y cant o'r cyhoedd yng Nghymru yn cefnogi gwaharddiad.[15]

**37.** Dywedodd Freedom for Animals:

> "Whilst we experience a range of reactions to our different campaigns, the use of animals in circuses is always met with solid objections, on welfare grounds and for strongly held ethical reasons."[16]

**38.** Amlygodd RSPCA Cymru, Mike Radford (Prifysgol Aberdeen) a Dr Rebekah Humphreys (Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant) newid mewn agwedd cymdeithas tuag at ddefnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yn ystod y degawdau diwethaf. Roeddent yn priodoli hyn i well dealltwriaeth wyddonol a chynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o alluoedd gwybyddol anifeiliaid. Yn ôl Dr Humphreys, roedd hyn wedi arwain at ymwybyddiaeth gynyddol o foeseg defnyddio anifeiliaid o'r fath at ddibenion adloniant.[17]

**39.** Pwysleisiodd yr Athro Beadle nad yw cyffredinrwydd barn y cyhoedd yn cyfateb i gyfiawnhad moesegol. Nododd:

> "On the assumption…that the ethical argument presupposed here is something along the lines that the will of the people should normally be observed, then all sorts of conundrums are raised."[18]

**40.** Dadleuodd rhai o'r ymatebwyr sy'n gwrthwynebu'r gwaharddiad ei bod yn gamarweiniol defnyddio'r ystadegau o ymgynghoriad Llywodraeth Cymru, a gafodd 6,546 o ymatebion, fel tystiolaeth ar gyfer cefnogaeth gyffredinol y cyhoedd i waharddiad. Tynnwyd sylw at y ffaith bod dwy ran o dair o'r rhai a

---

[14] Tystiolaeth ysgrifenedig WA 06, Born Free Foundation

[15] Tystiolaeth ysgrifenedig WA 09, RSPCA Cymru

[16] Tystiolaeth ysgrifenedig WA 02, Freedom for Animals

[17] Tystiolaeth ysgrifenedig WA 03, Dr Rebekah Humphreys

[18] Tystiolaeth ysgrifenedig WA 10, yr Athro Ron Beadle

ymatebodd i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru wedi gwneud hynny fel rhan o ymgyrch wedi'i threfnu.

**41.** Honnodd cynrychiolwyr y diwydiant syrcas fod y nifer fawr o ymwelwyr â syrcasau teithiol sy'n defnyddio anifeiliaid gwyllt yn dangos cymeradwyaeth y cyhoedd a'i fod yn bleidlais fawr o'u plaid.[19] Nododd Circus Mondao ei bod wedi derbyn 20,000 o ymwelwyr yn ystod taith 10 wythnos ddiweddar o amgylch Cymru. Dywedodd wrth y Pwyllgor fod hyn yn siarad cyfrolau wrth sôn am bwy sydd eisiau parhau i weld syrcas draddodiadol yng Nghymru.[20]

## Perfformiad ac urddas anifeiliaid

**42.** Awgrymodd y rhai sy'n cefnogi'r gwaharddiad fod gwneud i anifeiliaid gwyllt berfformio triciau yn ddiraddiol ac yn groes i'w hurddas. Dadleuodd BFF nad yw'n iawn defnyddio anifeiliaid gwyllt yn y ffordd y maent yn cael eu defnyddio yn y cylch.[21] Nododd:

> "…the use of animals in circuses is solely for entertainment. It's solely to perform tricks or just to be exhibited. It's a million miles removed from animals engaging in natural processes in the wild."[22]

**43.** Tynnodd yr Athro Beadle sylw at y ffaith bod y feirniadaeth mewn perthynas ag urddas anifeiliaid, os caiff ei derbyn, yn berthnasol i bob amgylchiad lle mae anifeiliaid yn perfformio triciau. Dywedodd fod y gwahaniaeth rhwng anifeiliaid gwyllt a domestig yn y cyd-destun hwn yn amherthnasol yn foesegol. Dywedodd hefyd:

> "The case for the distinctiveness of 'travelling circus' such that it requires different treatment…is simply not argued, let alone established, in the Explanatory Memorandum."[23]

**44.** Honnodd cynrychiolwyr y diwydiant syrcas fod perfformiadau'n seiliedig ar symudiadau ac ymddygiadau naturiol anifeiliaid; gan helpu i ddangos galluoedd unigryw yr anifeiliaid; a'u bod yn enghreifftiau o gydweithrediad rhwng pobl ac anifeiliaid.

[19] Cofnod y Trafodion, paragraff 376, 2 Hydref 2019
[20] Tystiolaeth ysgrifenedig WA 07, Circus Mondao
[21] Cofnod y Trafodion, paragraff 31, 26 Medi 2019
[22] Cofnod y Trafodion, paragraff 41, 26 Medi 2019
[23] Tystiolaeth ysgrifenedig WA 10, yr Athro Ron Beadle

**45.** Eglurodd Thomas Chipperfield fod y gymuned syrcas ryngwladol, dros amser, wedi addasu perfformiadau i sicrhau bod anifeiliaid yn cael eu cyflwyno mewn ffordd urddasol, fel sioe drawiadol o natur.[24]

## Agweddau negyddol tuag at anifeiliaid

**46.** Mynegodd sawl ymatebydd sy'n cefnogi'r gwaharddiad bryder fod y defnydd o anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yn cael effaith negyddol ar agwedd y cyhoedd tuag at anifeiliaid. Awgrymodd Cymdeithas Milfeddygon Prydain (BVA) a Chymdeithas Filfeddygol Sŵolegol Prydain (BVZS) y gallai caniatáu i'r arfer barhau, o bosibl danseilio dealltwriaeth y cyhoedd o anifeiliaid fel bodau ymdeimladol ag anghenion lles cymhleth, gan fframio anifeiliaid fel nwyddau yn lle hynny.[25]

**47.** Dywedodd RSPCA Cymru wrth y Pwyllgor nad yw defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yn addysgu'r cyhoedd nac yn meithrin parch at anifeiliaid.[26] Mynegodd Animal Defenders International (ADI) farn debyg.[27]

**48.** Mynegodd Freedon for Animals bryder arbennig ynghylch yr effaith ar agweddau plant tuag at anifeiliaid gwyllt. Nododd:

> "Children who see animals in these exploitative situations learn how animals behave in these artificial environments, which does not reflect how they would behave naturally in the wild. This form of exploitation also teaches young people that using animals in this way is acceptable in society…"[28]

**49.** Dywedodd Dr Giulia Corsini (Milfeddyg) wrth y Pwyllgor nad oedd unrhyw dystiolaeth wyddonol i gefnogi'r dadleuon uchod.[29]

**50.** Awgrymodd cynrychiolwyr y diwydiant syrcas fod perfformiadau'n darparu budd addysgol ac yn cefnogi datblygiad agweddau cadarnhaol tuag at anifeiliaid. Eglurodd Rona Brown (yn cynrychioli Safonau Lles Rhyngwladol ar gyfer Anifeiliaid Perfformio (PAWSI) a Peter Jolly's Circus) fod Peter Jolly's Circus yn

[24] Cofnod y Trafodion, paragraff 228, 2 Hydref 2019

[25] Tystiolaeth ysgrifenedig WA 05, Cymdeithas Filfeddygol Prydain a Chymdeithas Sŵolegol Filfeddygol Prydain

[26] Tystiolaeth ysgrifenedig WA 09, RSPCA Cymru

[27] Tystiolaeth ysgrifenedig WA 11, Animal Defenders International

[28] Tystiolaeth ysgrifenedig WA 02, Freedom for Animals

[29] Cofnod y Trafodion, paragraff 370, 2 Hydref 2019

cynnig cyfle i ymwelwyr ryngweithio â'i hanifeiliaid yn dilyn perfformiadau, sy'n eu helpu i ddatblygu dealltwriaeth o'r anifeiliaid.[30]

**51.** Awgrymodd Circus Mondao efallai na fyddai ymwelwyr â'r syrcas fel arall yn cael cyfle i weld anifeiliaid gwyllt yn uniongyrchol, yn benodol, oherwydd costau gwaharddedig dewisiadau amgen.[31]

## 3. 3. Ystyriaethau o ran lles anifeiliaid

**52.** Roedd llawer o'r dystiolaeth a gafwyd i gefnogi gwaharddiad yn canolbwyntio ar ystyriaethau o ran lles anifeiliaid. Honnodd yr ymatebwyr na ellir diwallu anghenion anifeiliaid gwyllt mewn amgylchedd syrcas deithiol. Cyfeiriodd llawer at ganfyddiadau Adolygiad Harris fel tystiolaeth i gefnogi hyn.

**53.** Nododd Cangen Cymru o BVA a'r BVZS:

> "Captive wild animals have complex welfare needs and instinctive natural behavioural needs that must be met. Travelling circuses, by definition, necessitate the regular transportation of wild animals between sites and locations, as such their facilities must be portable and often size-limited…With this in mind, travelling circuses are not able to meet wild animals' need for a suitable environment, with adequate space, enrichment materials, temperature and noise regulation – obstructing animals in pursuit of activities and behavioural expression that is natural to them."[32]

**54.** Dywedodd RSPCA Cymru:

> "Pivotally, the itinerant, transient nature of circuses means the complex needs of wild animals cannot be adequately met in such an environment. Confinement, constant transportation, forced training and being placed within abnormal social groups are all grim realities associated with circus life; all of which can cause stress and welfare problems for the animals involved."[33]

---

[30] Cofnod y Trafodion, paragraff 13, 2 Hydref 2019

[31] Cofnod y Trafodion, paragraff 190, 2 Hydref 2019

[32] Tystiolaeth ysgrifenedig WA 05, Cymdeithas Filfeddygol Prydain a Chymdeithas Sŵolegol Filfeddygol Prydain

[33] Tystiolaeth ysgrifenedig WA 09, RSPCA Cymru

**55.** Yn ôl Freedom for Animals, mae gan y diwydiant syrcas hanes o reolaeth rymus o anifeiliaid, a weithiau camdriniaeth.[34] Honnodd ADI fod amodau byw gwael, a cham-drin anifeiliaid gwyllt yn nwy syrcas deithiol y DU.[35]

**56.** Cyfeiriodd People for the Ethical Treatment of Animals (PETA) at ddulliau hyfforddi, gan gynnwys amddifadedd dŵr, bachu, llosgi pawen, defnyddio cemegolion costig ac ynysu. Soniodd am achosion o gam-drin honedig mewn syrcasau yn Tsieina, a nododd fod dioddefaint anifeiliaid yn endemig yn y diwydiant syrcas.[36]

**57.** Credai rhai sefydliadau lles anifeiliaid fod digon o dystiolaeth wyddonol i Lywodraeth Cymru gyflwyno gwaharddiad ar sail lles anifeiliaid gan ddefnyddio pwerau o dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006. Fodd bynnag, roeddent yn derbyn rhesymeg Llywodraeth Cymru dros ei dull. Pwysleisiodd RSPCA Cymru mai ei phrif amcan oedd gwahardd yr arfer cyn gynted â phosibl, ni waeth beth oedd y modd a ddefnyddir.[37]

**58.** Honnodd cynrychiolwyr y diwydiant syrcas nad oedd unrhyw bryderon lles mewn perthynas ag anifeiliaid gwyllt yn nwy syrcas deithiol y DU. Dyfynnwyd canfyddiadau adolygiad DEFRA 2018 o Reoliadau 2012 fel tystiolaeth i gefnogi hyn. Yn ôl DEFRA, ymddengys bod y Rheoliadau wedi sefydlu cynllun trwyddedu effeithiol i hyrwyddo a monitro safonau lles uchel ar gyfer anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yn Lloegr.[38]

**59.** Cyfeiriodd Thomas Chipperfield, yr Athro Beadle a Dr Corsini at sawl astudiaeth, gan gynnwys y rhai gan Dr Marthe-Kiley Worthington a Dr Ted Friend, fel tystiolaeth na chafodd lles anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol ei gyfaddawdu.

**60.** Gwrthododd cynrychiolwyr y diwydiant syrcas yr awgrymiadau mewn tystiolaeth fod dulliau hyfforddi creulon yn cael eu defnyddio a bod anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yn cael eu cam-drin. Dywedodd Thomas

[34] Tystiolaeth ysgrifenedig WA 02, Freedom for Animals

[35] Tystiolaeth ysgrifenedig WA 11, Animal Defenders International

[36] Tystiolaeth ysgrifenedig WA 12, People for Ethical Treatment of Animals

[37] Tystiolaeth ysgrifenedig WA 09, RSPCA Cymru

[38] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/683306/wild-animals-circuses-post-implementation-review-feb2018.pdf

Chipperfield wrth y Pwyllgor ei bod yn sylfaenol anghywir bod yn rhaid hyfforddi anifeiliaid gan ddefnyddio dulliau creulon er mwyn ennill eu cydweithrediad.[39]

**61.** Dadleuodd Rona Brown ei bod yn anghywir defnyddio enghreifftiau rhyngwladol o gam-drin anifeiliaid mewn syrcasau fel tystiolaeth i gefnogi gwaharddiad yng Nghymru.[40]

**62.** Honnodd sawl ymatebydd, gan gynnwys Dr Corsini, yr Athro Beadle a Pet Owners and Others sy'n wynebu anawsterau gyda'r RSPCA (yr SHG) na ellid dibynnu ar Adolygiad Harris fel tystiolaeth i gefnogi gwaharddiad. Roedd hyn oherwydd beirniadaeth o'r defnydd o dystiolaeth yn yr Adolygiad.

## 3. 4. Ystyriaethau o ran cydraddoldeb a hawliau dynol

**63.** Dadleuodd mwyafrif yr ymatebwyr sy'n gwrthwynebu'r gwaharddiad ei fod yn wahaniaethol oherwydd ei fod ond yn berthnasol i syrcasau teithiol. Roeddent hefyd yn dadlau bod y gwaharddiad wedi codi materion o ran hawliau dynol, a fyddai'n gadael y Bil yn agored i her gyfreithiol.

**64.** Yn ôl PAWSI, mae'r Bil yn wahaniaethol, yn annheg, yn anghyfiawn, yn erbyn deddfau treftadaeth, ac yn ymosod ar grŵp lleiafrifol.[41]

**65.** Dywedodd un ymatebydd unigol:

> "Circus has its own core cultural traditions, making the people working and living within this industry a cultural minority within the British Isles. The proposed ban on wild animals within circuses, but excluding all other uses of the same animal species within the public entertainment industry amounts to blatant discrimination with regards to cultural minorities."[42]

**66.** Credai Thomas Chipperfield y byddai'r gwaharddiad yn mynd yn groes i Erthygl 10 o Ddeddf Hawliau Dynol 1998 (Rhyddid mynegiant). Mynegodd yr SHG bryder fod y Bil yn mynd yn groes i hawl unigolion sy'n teithio gyda syrcasau i fod yn berchen ar eu heiddo a'i fwynhau. Mae'n cyfyngu ar eu gallu i weithio. Os yw'r anifeiliaid yn anifeiliaid anwes mae'n ymyrryd â'u hawl i fywyd teuluol.

[39] Cofnod y Trafodion, paragraff 262, 2 Hydref 2019

[40] Cofnod y Trafodion, paragraff 28, 2 Hydref 2019

[41] Tystiolaeth ysgrifenedig WA 19, Safonau Lles Rhyngwladol ar gyfer Anifeiliaid Perfformio

[42] Tystiolaeth ysgrifenedig WA15, Unigolyn

## Tystiolaeth gan y Gweinidog

**67.** Wrth egluro'r sail foesegol dros waharddiad, dywedodd y Gweinidog:

> "Mae defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yn rhywbeth o'r oes o'r blaen ac nid yw'n adlewyrchu'r farn gyhoeddus heddiw ynghylch sut y dylai anifeiliaid gael eu trin a'u dangos. Nid oes budd i gymdeithas nac i'r anifail gwyllt sy'n cyfiawnhau ei ddefnyddio'n unswydd i'n diddanu. Nid yw'n cyfrannu fawr at ein dealltwriaeth o anifeiliaid gwyllt a'u hymddygiad naturiol, nac at eu gwarchod yn eu cynefin. Mae'n amheus a yw'r anifeiliaid yn byw bywyd o ansawdd da ac yn bendant, nid yw'n fywyd sy'n debyg i fywyd anifeiliaid eraill o'r un rhywogaeth sy'n cael eu cadw mewn amgylcheddau eraill, fel swâu sy'n cael eu rheoleiddio'n drwm, nac anifeiliaid sy'n byw'n rhydd yn eu cynefin."[43]

**68.** Dywedodd hefyd wrth y Pwyllgor "rhaid symud ymlaen o weld anifeiliaid gwyllt yn gorymdeithio o'n blaenau yn adloniant" a thrwy gyflwyno gwaharddiad y byddai Cymru yn "ymuno â nifer gynyddol o wledydd sy'n credu ei bod yn annerbyniol defnyddio bodau ymdeimladol mewn ffordd mor hen ffasiwn".[44]

**69.** Cydnabu'r Gweinidog fod moeseg yn rhywbeth personol[45] a bod moeseg wahanol gan bob un ohonom; mae gan bob un ohonom foesau gwahanol ac mae gan bob un ohonom farn wahanol.[46] Fodd bynnag, ailadroddodd fod cefnogaeth gyhoeddus ysgubol[47] i waharddiad a chred mai dyma'r peth iawn i'w wneud.[48]

**70.** Nododd y Gweinidog fod 97 y cant o'r ymatebwyr i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r cynnig i gyflwyno Bil i wahardd yr arfer.[49] Er iddi gydnabod "er nad pleidlais nag arolwg barn mo ymgynghoriad", honnodd fod y

---

43 www.senedd.cynulliad.cymru/documents/s94382/Response%20from%20the%20Minister%20for%20Environment%20Energy%20and%20Rural%20Affairs%20-%203%20October%202019.pdf

44 www.senedd.cynulliad.cymru/documents/s94382/Response%20from%20the%20Minister%20for%20Environment%20Energy%20and%20Rural%20Affairs%20-%203%20October%202019.pdf

45 Cofnod y Trafodion, paragraff 14, 10 Hydref 2019

46 Cofnod y Trafodion, paragraff 25, 10 Hydref 2019

47 Cofnod y Trafodion, paragraff 25, 10 Hydref 2019

48 Cofnod y Trafodion, paragraff 14, 10 Hydref 2019

49 Cofnod y Trafodion, paragraff 12, 10 Hydref 2019

"[g]efnogaeth aruthrol [am waharddiad]… yn arwydd arall o gryfder teimladau'r cyhoedd ynghylch y mater.[50]

**71.** Gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidog a oedd yr 20,000 o ymwelwyr â Circus Mondao yn dystiolaeth o awydd parhaus ymhlith y cyhoedd yng Nghymru i weld anifeiliaid gwyllt yn perfformio mewn syrcasau teithiol. Dywedodd fod y nifer yn ganran fach iawn o boblogaeth Cymru.[51]

**72.** Wrth ymateb i bryderon bod y gwaharddiad yn wahaniaethol, nododd y Gweinidog nad yw'n credu bod syrcasau teithiol yn grŵp lleiafrifol ac eglurodd fod Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i gynnal ar gyfer y Bil.[52] Dywedodd y Gweinidog fod "cyfiawnhad dros waharddiad ac y byddai'n ymateb cymesur" a'i bod yn "fodlon bod darpariaethau'r Bil yn cydymffurfio â Deddf Hawliau Dynol 1998".[53]

**73.** Gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidog egluro pam mae Llywodraeth Cymru wedi dewis blaenoriaethu gwaharddiad ar ddefnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol dros ddefnyddio anifeiliaid mewn lleoliad arall lle mae pryderon hysbys ynghylch lles anifeiliaid. Cydnabu'r Gweinidog fod llawer o broblemau o ran lles anifeiliaid y mae angen mynd i'r afael â hwy mewn lleoliadau eraill.[54] Awgrymodd y gallai cynllun trwyddedu arfaethedig Llywodraeth Cymru ar gyfer Arddangosfeydd Anifeiliaid fynd i'r afael â rhai o'r materion hyn.[55]

**74.** Eglurodd y Gweinidog fod gwaharddiad eisoes ar waith yn yr Alban ac y byddai'n cael ei gyflwyno yn Lloegr ym mis Ionawr 2020. Dywedodd nad oedd eisiau i Gymru ddod yn noddfa ar gyfer syrcasau teithiol sy'n defnyddio anifeiliaid gwyllt.[56]

**75.** Pwysleisiodd y Gweinidog nad oedd y gwaharddiad yn cael ei gyflwyno ar sail lles anifeiliaid. Cadarnhaodd nad oedd tystiolaeth bod anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yn y DU yn cael eu cam-drin a'u bod yn gorfod cadw at reoliadau

---

[50] www.senedd.cynulliad.cymru/documents/s94382/Response%20from%20the%20Minister%20for%20Environment%20Energy%20and%20Rural%20Affairs%20-%203%20October%202019.pdf

[51] Cofnod y Trafodion, paragraff 12, 10 Hydref 2019

[52] Cofnod y Trafodion, paragraff 128, 10 Hydref 2019

[53] www.senedd.cynulliad.cymru/documents/s94382/Response%20from%20the%20Minister%20for%20Environment%20Energy%20and%20Rural%20Affairs%20-%203%20October%202019.pdf

[54] Cofnod y Trafodion, paragraff 103, 10 Hydref 2019

[55] Cofnod y Trafodion, paragraff 111, 10 Hydref 2019

[56] Cofnod y Trafodion, paragraff 12, 18 Gorffennaf 2019

llym iawn a materion trwyddedu ar hyn o bryd.[57] Wrth gael ei holi ar berthnasedd gwaith ymchwil yr Athro Harris ar les anifeiliaid i'r Bil, dywedodd y Gweinidog ei fod yn amherthnasol gan mai ei ffocws oedd lles anifeiliaid.[58]

## Ein barn ni

Heb amheuaeth, mae defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yn fater emosiynol, gyda safbwyntiau cryf ar ddwy ochr y ddadl. Mae'r arfer hwn wedi bod o gwmpas ers canrifoedd a byddai rhai'n dadlau ei fod wedi addasu dros amser i adlewyrchu chwaeth ac agweddau newidiol cymdeithas tuag at anifeiliaid. Fodd bynnag, mae gan eraill gredoau cadarn bod yr arfer yn un o'r enghreifftiau gwaethaf o ecsbloetio anifeiliaid ac wedi ymgyrchu ers degawdau am waharddiad. Mae cryfder y teimlad ynghylch defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol, a ph'un a oes angen gwaharddiad, wedi'i gadarnhau yn y dystiolaeth a gawsom.

Cyn troi at ein barn ar y sail foesegol dros ddeddfu, credwn ei bod yn bwysig myfyrio ar faint y broblem y mae Llywodraeth Cymru yn ceisio mynd i'r afael â hi. Bydd y gwaharddiad yn effeithio ar ddwy syrcas deithiol yn y DU, sy'n berchen ar gyfanswm o 19 o anifeiliaid gwyllt. Nodwn fod gwaharddiadau cyfatebol ar waith, neu y byddant ar waith yn fuan, yn yr Alban a Lloegr, sydd wedi cynyddu'r ysgogiad i'w gwahardd yng Nghymru. Fodd bynnag, mae angen mynd i'r afael ag ystod o faterion dybryd o ran lles anifeiliaid mewn lleoliadau eraill, er enghraifft, sefydliadau bridio cŵn. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud dadl ddarbwyllol ynghylch pam y dylid blaenoriaethu gwaharddiad ar ddefnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol dros faterion o'r fath.

Fel rheol, byddai deddfwriaeth yn cael ei hategu gan dystiolaeth bendant. Nid yw hynny'n wir am y Bil hwn. Mae hanes o ddadlau ynghylch i ba raddau y mae'n briodol i lywodraethau ddeddfu ar sail foesegol. Mae moeseg yn cynnwys rhywfaint o farn, yn debyg i wneud penderfyniadau moesegol. Mae'n anodd profi a yw rhywbeth yn foesegol neu'n anfoesol. Felly, mae dull Llywodraeth Cymru o ddeddfu yn broblem.

O ran y sail foesegol dros ddeddfu, safbwynt Llywodraeth Cymru yw bod defnyddio anifeiliaid gwyllt ar gyfer perfformiad yn anfoesol. Os yw am fod yn gyson, mae'n dilyn y byddai'n ystyried bod defnyddio pob anifail ar gyfer perfformiad mewn lleoliadau eraill, nid syrcasau teithiol yn unig, yn anfoesol. Ond mae'r Bil yn berthnasol i anifeiliaid gwyllt yn unig, nid anifeiliaid wedi'u

[57] Cofnod y Trafodion, paragraff 7, 10 Hydref 2019

[58] Cofnod y Trafodion, paragraff 253, 10 Hydref 2019

domestigeiddio; mae'n berthnasol i syrcasau teithiol, ond nid syrcasau sefydlog. Ni fydd anifeiliaid sy'n cael eu harddangos at ddibenion adloniant mewn lleoliadau heblaw syrcasau teithiol yn cael eu gwahardd ond byddant yn cael eu rheoleiddio.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud bod ei hymgynghoriad yn dangos cefnogaeth i waharddiad. Mae ymgynghoriadau cyhoeddus a pholau piniwn, fel y rhai a enwir mewn tystiolaeth, yn rhoi mewnwelediad defnyddiol i werthoedd sylfaenol y cyhoedd, ond ni ddylent fod yn brif ffynhonnell tystiolaeth ar gyfer deddfwriaeth. At hynny, ac yn bwysig, nid yw Llywodraeth Cymru yn glir a yw cefnogaeth y cyhoedd i waharddiad yn seiliedig ar ystyriaethau moesegol, neu ganfyddiadau o les gwael anifeiliaid.

Yn gyffredinol, mae'r ddadl a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru i gefnogi ei safbwynt moesegol wedi bod yn wan ac, mewn rhai achosion, yn anghyson. Nid yw Llywodraeth Cymru yn defnyddio ei safbwynt moesegol yn gyson. Y canlyniad yw Bil cul ei gwmpas, a allai ymddangos yn fympwyol. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y dylid barnu'r Bil yn ôl ei deilyngdod. Nid yw ei gwmpas cul a'i hepgoriadau canlyniadol o reidrwydd yn rhesymau digonol i ddal cefnogaeth yn ôl.

Mae'r Pwyllgor wedi gofyn y cwestiwn a oes angen gwaharddiad gyda meddwl agored. Rydym wedi gwrando ar y dystiolaeth a gyflwynwyd gan sefydliadau lles anifeiliaid, y diwydiant syrcas, ac eraill, ac mae pob un ohonynt wedi cyflwyno dadleuon argyhoeddiadol.

Mae'r Bil hwn wedi'i ddwyn ymlaen am resymau moesegol ac, yn y pen draw, mae'r cwestiwn p'un a yw rhywbeth yn foesegol yn fater o farn bersonol. Mae rhai aelodau'r Pwyllgor hwn yn cefnogi'r angen am y Bil hwn. Mae Aelodau eraill yn parhau i fod heb eu hargyhoeddi.

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn unfrydol yn ei gefnogaeth barhaus i les pob anifail. Fodd bynnag, nid ydym wedi gallu dod i farn unfrydol ynghylch p'un a ddylai'r Bil hwn symud yn ei flaen. Mae mwyafrif o aelodau'r Pwyllgor yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil. Rydym yn argymell bod y Cynulliad yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil.

# 4. Cwmpas y gwaharddiad

**76.** Bydd y Bil yn gwahardd "defnyddio" anifail gwyllt mewn syrcas deithiol. Caiff anifail gwyllt ei ddefnyddio os yw'n "perfformio" neu'n "cael ei arddangos".

**77.** Yn ôl y Nodiadau Esboniadol, mae anifail gwyllt yn "perfformio" os yw, er enghraifft, yn gwneud triciau neu symudiadau i gynulleidfa. Mae anifail gwyllt yn cael ei "arddangos" os yw'n cael ei arddangos i'r cyhoedd, hyd yn oed os yw'n cael ei arddangos y tu allan i brif arena'r syrcas. Fodd bynnag, ni fydd trosedd wedi'i chyflawni os yw'r cyhoedd yn "anfwriadol yn gweld anifail gwyllt", er enghraifft, pan fydd mewn lloc yn yr awyr agored.

**78.** Ni fydd y Bil yn atal syrcasau teithiol rhag cadw, neu deithio gydag anifeiliaid gwyllt, ar yr amod na ddefnyddir yr anifeiliaid hynny.

**79.** Ni fydd y Bil yn gwahardd defnyddio anifeiliaid wedi'u domestigeiddio mewn syrcasau teithiol na defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau sefydlog. Bydd y gweithgareddau hyn yn amodol ar ofynion cynlluniau trwyddedu eraill, gan gynnwys y cynllun trwyddedu arfaethedig ar gyfer arddangosfeydd anifeiliaid.

## Tystiolaeth gan randdeiliaid

### Gwaharddiad "llwyr"

**80.** Mynegodd RSPCA Cymru, Freedom for Animals a BFF bryder fod cwmpas y gwaharddiad yn gul, gan dynnu sylw at y ffaith y byddai syrcasau teithiol yn dal i gael mynd ar daith gydag anifeiliaid gwyllt a'u hyfforddi. Roeddent yn dadlau nad oedd y gwaharddiad yn mynd i'r afael â phryderon ynghylch teithio dro ar ôl tro a llety dros dro sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd syrcas deithiol. Roeddent yn galw am waharddiad llwyr ar syrcasau teithiol yn cadw anifeiliaid gwyllt. Fel arall, ac fel safon ofynnol, gwnaethant alw am i gwmpas y gwaharddiad ymestyn i deithio gydag anifeiliaid gwyllt.

**81.** Awgrymodd Freedom for Animals y gallai unrhyw beth heblaw gwaharddiad llwyr fethu â chyrraedd disgwyliadau'r cyhoedd.[59]

**82.** Dywedodd y ddwy syrcas deithiol yn y DU wrth y Pwyllgor yr hoffent barhau i fynd â'u hanifeiliaid gwyllt ar daith yn dilyn y gwaharddiad, er na allai'r anifeiliaid hynny berfformio na chael eu harddangos. Gwnaethant bwysleisio bod eu hanifeiliaid yn gyfarwydd iawn â'r ffordd o fyw yn teithio, gyda rhai wedi'u geni

[59] Tystiolaeth ysgrifenedig WA 02, Freedom for Animals

iddo. Gwnaethant egluro bod eu hanifeiliaid yn rhan o'u teulu, ac y byddai eu gadael yn ystod y gaeaf yn annheg.[60]

## Anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau sefydlog

**83.** Roedd barn gymysg mewn tystiolaeth ynghylch p'un a ddylai cwmpas y gwaharddiad ymestyn i ddefnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau sefydlog. Pwysleisiodd RSPCA Cymru fod ei brif bryderon yn ymwneud â natur deithiol syrcas deithiol a'u hanallu i ddarparu ar gyfer anghenion anifeiliaid gwyllt.[61] Awgrymodd y byddai rheoleiddio'r defnydd o anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau sefydlog yn fwy priodol na gwaharddiad.[62]

**84.** Mewn cyferbyniad, roedd PETA o'r farn y dylid ymestyn cwmpas y gwaharddiad i syrcasau sefydlog ar y sail nad oedd pryderon lles mewn perthynas ag anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yn gyfyngedig i'r teithio aml, ond eu bod yn cwmpasu pob agwedd ar fywydau anifeiliaid mewn amgylchedd syrcas.[63] Gwnaeth Dr Rebekah Humphreys bwyntiau tebyg.[64]

**85.** Nododd Mike Radford fod y sail foesegol dros wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yr un mor berthnasol i syrcasau sefydlog.[65] Yn yr un modd, honnodd yr Athro Beadle nad oes gwahaniaeth moesegol sy'n gwneud unrhyw synnwyr yma.[66] Er gwaethaf ei wrthwynebiad i'r Bil, dywedodd wrth y Pwyllgor na ellir cyfiawnhau eithrio syrcasau sefydlog o'r gwaharddiad.[67]

## Anifeiliaid wedi'u domestigeiddio mewn syrcasau teithiol

**86.** Freedom for Animals oedd yr unig ymatebydd i eirioli ymestyn cwmpas y gwaharddiad i anifeiliaid wedi'u domestigeiddio. Tynnodd sylw at y ffaith bod anifeiliaid a ddefnyddir mewn syrcasau teithiol yn dioddef llawer o'r un problemau ag y mae anifeiliaid gwyllt.[68]

**87.** Mae PETA a BFF wedi awgrymu y gallai fod achos i ystyried gwaharddiad ar ddefnyddio anifeiliaid wedi'u domestigeiddio fel dyhead tymor hwy. Fodd

---

[60] Cofnod y Trafodion, paragraff 124, 2 Hydref 2019
[61] Cofnod y Trafodion, paragraff 85, 26 Medi 2019
[62] Cofnod y Trafodion, paragraff 85, 26 Medi 2019
[63] Tystiolaeth ysgrifenedig WA 12, People for Ethical Treatment of Animals
[64] Cofnod y Trafodion, paragraff 67, 18 Medi 2019
[65] Cofnod y Trafodion, paragraff 68, 18 Medi 2019
[66] Cofnod y Trafodion, paragraff 64, 18 Medi 2019
[67] Tystiolaeth ysgrifenedig WA 10, yr Athro Ron Beadle
[68] Tystiolaeth ysgrifenedig WA 02, Freedom for Animals

bynnag, roeddent yn fodlon bod cwmpas y gwaharddiad wedi'i gyfyngu i ddefnyddio anifeiliaid gwyllt, gan mai dod â'r arfer hwn i ben oedd eu prif flaenoriaeth.[69]

**88.** Dywedodd BFF wrth y Pwyllgor nad oedd yr un lefel o bryder cymdeithasol i anifeiliaid wedi'u domestigeiddio mewn amgylchedd syrcas deithiol.[70] Awgrymodd fod ystyriaethau moesegol ynghylch defnyddio anifeiliaid wedi'u domestigeiddio yn haeddu mwy o drafodaeth.[71] Awgrymodd PETA nad oedd gwahaniaeth rhwng sut y mae anifeiliaid gwyllt ac anifeiliaid wedi'u wedi'u domestigeiddio yn cael eu trin mewn syrcasau.[72] Fodd bynnag, eglurodd at ddiben y Bil y dylid canolbwyntio ar anifeiliaid gwyllt oherwydd ei bod yn bragmatig gwneud hynny.[73]

**89.** Amlinellodd Dr Humphreys, Mike Radford a BFF pam nad yw'r un cyfiawnhad dros wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt yn berthnasol i anifeiliaid wedi'u domestigeiddio. Awgrymwyd ei bod yn fwy tebygol y gallai anghenion anifeiliaid wedi'u domestigeiddio gael eu diwallu mewn amgylchedd syrcas deithiol. Dywedodd BFF:

> "…domesticated animals, have millennia of co-existence and selective breeding for life alongside humans, which has imbued them with an ability…to cope with some of the things that we might subject them to in the purposes for which we've selected them…it stands in enormous contrast to non-domesticated wild animals…Their inherent biology, their inherent behaviour, is completely unrelated to that environment."[74]

## Tystiolaeth gan y Gweinidog

**90.** Eglurodd y Gweinidog nad oedd yn ceisio gwaharddiad llwyr ar syrcasau teithiol yn cadw eu hanifeiliaid gwyllt gan y byddai hyn yn ymwneud â'r gyfraith hawliau dynol. Dywedodd y byddai gwaharddiad llwyr yn "golygu amddifadu

[69] Cofnod y Trafodion, paragraffau 81-83 64, 26 Medi 2019
[70] Cofnod y Trafodion, paragraff 81, 26 Medi 2019
[71] Cofnod y Trafodion, paragraff 81, 26 Medi 2019
[72] Cofnod y Trafodion, paragraff 83, 26 Medi 2019
[73] Cofnod y Trafodion, paragraff 83, 26 Medi 2019
[74] Cofnod y Trafodion, paragraff 81, 26 Medi 2019

rhywun rhag ei eiddo ac i'w hawl i fwynhau ei eiddo'n heddychlon. Amddiffynnir yr hawl hwn gan Erthygl 1 o Brotocol 1 i Gonfensiwn Ewrop ar Hawliau Dynol".[75]

**91.** Gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidog egluro pam nad oedd cwmpas y gwaharddiad yn ymestyn i "deithio gydag" anifeiliaid gwyllt. Honnodd fod y gwaharddiad yn cael ei gyflwyno oherwydd y ffordd y mae anifeiliaid gwyllt yn cael eu defnyddio, nid oherwydd y teithio.[76] Fodd bynnag, eglurodd swyddog y Gweinidog, yn dilyn y gwaharddiad, y byddai angen trwyddedu syrcasau teithiol sy'n dewis cadw eu hanifeiliaid gwyllt o dan Ddeddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus 1976 (Deddf 1976). Dywedodd ei bod yn annhebygol iawn y byddai amodau'r drwydded yn caniatáu i'r syrcas barhau i deithio gyda'r anifeiliaid hynny oherwydd ystyriaethau o ran lles anifeiliaid.[77] Mae rhagor o fanylion am drwyddedu o dan Ddeddf 1976 ar gael ym Mhennod 7.

**92.** Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor fod y ddadl foesegol dros wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau sefydlog yn llawer gwannach nag ar gyfer syrcasau teithiol. Dywedodd y gellid dadlau y gallai amgylchedd sy'n barhaol gael ei addasu'n well ar gyfer anghenion anifail nag amgylchedd sy'n symud yn gyson.[78]

**93.** Eglurodd y Gweinidog nad oedd cwmpas y gwaharddiad yn ymestyn i ddefnyddio anifeiliaid wedi'u domestigeiddio am nad oes yr un gwrthwynebiadau moesegol sylfaenol i ddefnyddio anifeiliaid wedi'u domestigeiddio mewn syrcasau teithiol ag sydd i anifeiliaid gwyllt.[79] Dywedodd ei bod yn fwy priodol rheoleiddio anifeiliaid domestig mewn syrcasau teithiol yn hytrach na gwahardd y gweithgarwch.[80]

## Ein barn ni

Mae'r pryderon lles a moesegol a fynegir mewn tystiolaeth yn ymwneud cymaint ag anaddasrwydd amgylchedd y syrcas deithiol ag y maent am wneud i anifeiliaid gwyllt berfformio. Dim ond drwy waharddiad "llwyr" y gellir mynd i'r afael â phryderon ynghylch teithio'n aml, llety dros dro a chaethiwed. Nid yw'r

---

75 www.senedd.cynulliad.cymru/documents/s94382/Response%20from%20the%20Minister%20for%20Environment%20Energy%20and%20Rural%20Affairs%20-%203%20October%202019.pdf

76 Cofnod y Trafodion, paragraff 86, 10 Hydref 2019

77 Cofnod y Trafodion, paragraff 37, 18 Gorffennaf 2019

78 Cofnod y Trafodion, paragraff 46, 18 Gorffennaf 2019

79 Cofnod y Trafodion, paragraff 74, 18 Gorffennaf 2019

80 Cofnod y Trafodion, paragraff 81, 18 Gorffennaf 2019

Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer hyn, ac ni all wneud hynny. Byddai gwneud hynny yn ymwneud â chyfraith hawliau dynol ac yn gadael y Bil yn agored i her gyfreithiol. Byddai hyn yn annerbyniol ac yn annymunol.

Mae bwriad polisi y Bil yn glir. Nod y Bil yw dod â'r defnydd o anifeiliaid gwyllt i ben mewn syrcasau teithiol. Fodd bynnag, rydym yn pryderu y gallai fod camsyniad ymhlith y cyhoedd ehangach mai effaith y Bil fydd gwahardd syrcasau teithiol rhag cadw anifeiliaid gwyllt. Rhaid aros i weld a fydd y gwaharddiad yn mynd i'r afael yn llawn â phryderon y cyhoedd a sefydliadau'r trydydd sector y mae eu galwadau am weithredu yn ganolog i ddadl Llywodraeth Cymru o blaid y Bil.

Fel y nodwyd yn flaenorol, nid yw Llywodraeth Cymru yn defnyddio ei safbwynt moesegol yn gyson. Dangosir hyn wrth ystyried cwmpas y gwaharddiad. Mae'r Gweinidog wedi darparu dadleuon gwan, a thystiolaeth wrthgyferbyniol wrth geisio egluro pam nad yw'r gwaharddiad yn ymestyn i anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau sefydlog, nac anifeiliaid wedi'u domestigeiddio mewn syrcasau teithiol. Er mwyn mynd i'r afael ag anghysondebau, byddai angen ymestyn cwmpas y gwaharddiad yn hyn o beth. Fodd bynnag, rydym wedi nodi ym Mhennod 3 bod deddfu yn absenoldeb tystiolaeth bendant yn broblem, a bod moeseg yn fater o farn bersonol.

Er gwaethaf yr uchod, er mwyn sicrhau gwaith craffu da, dylai'r Gweinidog roi eglurhad clir i'r Cynulliad o'r rhesymau dros gwmpas cyfyngedig y gwaharddiad, a'r defnydd anghyson o safbwynt moesegol Llywodraeth Cymru. Bydd hyn yn galluogi'r Aelodau i ddod i benderfyniadau gwybodus ynghylch cwmpas y gwaharddiad pe bai'r Bil yn symud ymlaen.

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell bod y Gweinidog yn darparu eglurhad mwy cynhwysfawr am y canlynol:

- pam nad yw cwmpas y gwaharddiad yn ymestyn i anifeiliaid gwyllt sy'n teithio gyda syrcasau teithiol;
- pam mae'r ddadl foesegol dros wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau sefydlog yn llawer gwannach nag ar gyfer syrcasau teithiol; a
- pham nad yw'r ddadl foesegol dros wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yr un mor berthnasol i anifeiliaid wedi'u domestigeiddio.

# 5. Termau allweddol

## 5. 1. Ystyr "gweithredwr"

**94.** Mae Adran 2 yn darparu bod y "gweithredwr" yn golygu perchennog y syrcas deithiol neu berson arall nad yw'n berchennog ond sy'n bennaf gyfrifol am ei gweithrediad. Ystyr y "gweithredwr" yw'r person yn y DU sy'n gyfrifol am weithrediad y syrcas deithiol.

### Tystiolaeth gan randdeiliaid

**95.** Roedd yr ymatebwyr yn fodlon ar y cyfan ag ystyr "gweithredwr". Fodd bynnag, awgrymodd Dr Humphreys fod y term yn amwys ac y byddai'n elwa o gael eglurhad pellach.[81] Awgrymodd Cyngor Caerffili y dylid ystyried bod y person sy'n gyfrifol am drin yr anifail yn ystod y perfformiad neu'r arddangosfa hefyd wedi cyflawni trosedd.[82]

### Tystiolaeth gan y Gweinidog

**96.** Ni chododd y Pwyllgor y mater hwn gyda'r Gweinidog.

### Ein barn ni

**97.** Rydym yn fodlon bod ystyr "gweithredwr" yn glir a byddwn yn cefnogi'r broses o gyflawni bwriad polisi Llywodraeth Cymru.

## 5. 2. Ystyr "anifail gwyllt"

**98.** Mae Adran 3 yn darparu bod "anifail gwyllt" yn golygu anifail o fath nad yw wedi ei ddomestigeiddio yn gyffredin yn yr Ynysoedd Prydeinig. Mae i "anifail" yr ystyr a roddir gan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006, ac mae'n berthnasol i anifeiliaid ag asgwrn cefn yn unig.

**99.** Gwnaed newidiadau ers y Bil drafft i gael gwared ar y diffiniad o "anifail wedi'i ddomestigeiddio" yn dilyn pryderon gan ymatebwyr ynghylch camddehongli. Mae'r diffiniad o "anifail gwyllt" bellach wedi'i alinio â diffiniad Deddf Trwyddedu Sŵau 1981 (Deddf 1981).

**100.** Mae'r Nodiadau Esboniadol i'r Bil yn tynnu sylw at y posibilrwydd y gallai fod ansicrwydd neu safbwyntiau gwrthgyferbyniol ynghylch ystyr "anifail gwyllt". Mae

---

[81] Tystiolaeth ysgrifenedig WA 03, Dr Rebekah Humphreys

[82] Tystiolaeth ysgrifenedig WA 04, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Adran 3 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau gan nodi math o anifail sydd i'w ystyried, neu ddim i'w ystyried, yn anifail gwyllt.

## Tystiolaeth gan randdeiliaid

**101.** Roedd yr ymatebwyr sy'n cefnogi'r gwaharddiad yn gyffredinol fodlon ag ystyr "anifail gwyllt". Cydnabu sefydliadau lles anifeiliaid ei fod yn gyson ag ystyr "sefydledig" "anifail gwyllt" a geir yn Neddf 1981. Awgrymodd rhai o'r ymatebwyr fod angen rhagor o fanylion, naill ai yn y Bil neu mewn canllawiau cysylltiedig, er mwyn helpu i ddehongli'r term a sicrhau bod y gwaharddiad yn cael ei weithredu'n effeithiol. Yn benodol, amlygodd ymatebwyr yr angen i egluro ystyr "wedi ei ddomestigeiddio".

**102.** Dywedodd Dr Humphreys wrth y Pwyllgor fod ystyr "gwylltineb" yn bwnc sy'n destun dadl fawr.[83] Eglurodd fod graddau o wylltineb a bod "gwyllt" yn gysyniad amwys.[84] Awgrymodd y gallai fod yn ddefnyddiol i'r Bil gynnwys enghreifftiau o'r mathau o anifeiliaid a fyddai'n cael eu hystyried yn rai gwyllt.[85]

**103.** Dywedodd Mike Radford ei bod yn bwysig ei gwneud yn glir bod y cysyniad o ddomestigeiddio yn wahanol i fridio anifail mewn caethiwed, ei ddofi neu ei hyfforddi.[86] Pwysleisiodd fod domestigeiddio yn gysyniad gwyddonol[87], a nododd:

> "[wild animals] are non-domesticated in the sense that their behaviour, their inherent, innate behaviour, has not been changed in the way that domesticated animals have."[88]

**104.** Mynegodd ADI farn debyg. Awgrymodd y gallai egluro ystyr "domestigeiddio" fod yn ddefnyddiol i fynd i'r afael â honiadau gan syrcasau a chymdeithasau syrcas fod anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau yn rhai domestig.[89]

**105.** Pwysleisiodd RSPCA Cymru nad yw cael eich geni mewn caethiwed - hyd yn oed cael eich geni'n gaeth dros sawl cenhedlaeth - yn cyfateb i'r broses esblygiadol y cyfeirir ati fel domestigeiddio.[90] Credai y byddai'n well mynd i'r afael ag eglurhad pellach o ystyr "anifail gwyllt" a "domestigeiddio" mewn canllawiau.

[83] Tystiolaeth ysgrifenedig WA 03, Dr Rebekah Humphreys
[84] Cofnod y Trafodion, paragraff 117, 18 Medi 2019
[85] Tystiolaeth ysgrifenedig WA 03, Dr Rebekah Humphreys
[86] Tystiolaeth ysgrifenedig WA 22, Michael Radford OBE
[87] Cofnod y Trafodion, paragraff 51, 18 Medi 2019
[88] Cofnod y Trafodion, paragraff 61, 18 Medi 2019
[89] Tystiolaeth ysgrifenedig WA 11, Animal Defenders International
[90] Cofnod y Trafodion, paragraff 117, 29 Medi 2019

Tynnodd BFF sylw at *Zoo Licensing Act 1981: Guide to the Act's provisions (2012)* DEFRA, fel rhywbeth arbennig o ddefnyddiol at ddibenion dehongli ystyr "anifail gwyllt".[91]

**106.** Roedd yr ymatebwyr hynny a wnaeth sylwadau yn fodlon yn gyffredinol ar y pwerau i wneud rheoliadau. Credai BVA a BVZS y byddai'r pŵer yn ddefnyddiol i ddarparu eglurder ar ystyr "anifail gwyllt", sicrhau cymhwysiad cyson, ac atal bylchau neu ardaloedd amwys.[92]

**107.** Pwysleisiodd Freedom for Animals na ddylid defnyddio'r pŵer fel ffordd o ddarparu eithriadau o'r gwaharddiad. Roedd yn honni y dylai penderfyniadau i nodi a oedd math o anifail yn wyllt ai peidio fod yn seiliedig ar gyngor gwyddonol.[93] Mynegodd RSPCA Cymru farn debyg a galwodd am i benderfyniadau gael eu cefnogi gan sylfaen dystiolaeth gadarn.[94]

**108.** Roedd llawer o'r dystiolaeth a gafwyd gan ymatebwyr sy'n gwrthwynebu'r gwaharddiad yn canolbwyntio ar y graddau yr oedd anifeiliaid syrcas yn "wyllt". Honnodd cynrychiolwyr y diwydiant syrcas a rhai o'r ymatebwyr unigol nad oedd yr anifeiliaid a ddefnyddir ar hyn o bryd gan syrcasau teithiol y DU yn "wyllt" yn yr ystyr llythrennol. Roedd Circus Mondao o'r farn bod ei anifeiliaid yn "egsotig".[95] Honnodd Rona Brown nad oedd anifeiliaid a ddefnyddiwyd yn Peter Jolly's Circus, gan gynnwys camelod a llwynogod, yn "wyllt". Dywedodd wrth y Pwyllgor fod categoreiddio anifeiliaid syrcas fel rhai "gwyllt" yn gamarweiniol.[96]

**109.** Eglurodd Chris Barltrop fod yr holl anifeiliaid mewn syrcasau teithiol yn y DU wedi cael eu bridio mewn caethiwed ers cenedlaethau lawer, ac awgrymodd mai dyma ddechrau'r broses ddomestigeiddio.[97] Eglurodd Thomas Chipperfield fod mwyafrif yr anifeiliaid syrcas wedi colli rhinweddau a fyddai'n hanfodol i'w goroesiad yn y gwyllt drwy fath o ddomestigeiddio ysgafn.

**110.** Dywedodd Dr Corsini wrth y Pwyllgor fod domestigeiddio yn broses gymhleth, heb gyfeiriad.[98] Eglurodd fod rhai anifeiliaid yn dod o fewn ardal amwys

[91] Tystiolaeth ysgrifenedig WA 06, Born Free Foundation

[92] Tystiolaeth ysgrifenedig WA 05, Cymdeithas Filfeddygol Prydain a Chymdeithas Sŵolegol Filfeddygol Prydain

[93] Tystiolaeth ysgrifenedig WA 02, Freedom for Animals

[94] Tystiolaeth ysgrifenedig WA 09, RSPCA Cymru

[95] Tystiolaeth ysgrifenedig WA 07, Circus Mondao

[96] Cofnod y Trafodion, paragraff 84, 2 Hydref 2019

[97] Cofnod y Trafodion, paragraff 292, 2 Hydref 2019

[98] Cofnod y Trafodion, paragraff 296, 2 Hydref 2019

ac y gellid eu categoreiddio naill ai'n "wyllt" neu "wedi eu domestigeiddio".[99] Awgrymodd y byddai'n fuddiol ceisio cyngor arbenigol wrth gategoreiddio anifeiliaid at ddibenion y Bil.[100]

**111.** Wrth wneud sylwadau ar ystyr "anifail gwyllt" y darperir ar ei gyfer yn y Bil, awgrymodd Thomas Chipperfield y gallai'r term "nad yw wedi ei ddomestigeiddio yn gyffredin yn yr Ynysoedd Prydeinig" fod yn broblem o bosibl i rai bridiau. Cyfeiriodd at y ceffyl Menroquin fel enghraifft ac eglurodd y byddai'n cael ei ddosbarthu fel "anifail gwyllt", ond nid yw hynny'n wir.[101]

## Tystiolaeth gan y Gweinidog

**112.** Eglurodd y Gweinidog fod ystyr "anifail gwyllt" y darperir ar ei gyfer yn y Bil yn gyson â'r diffiniad o "anifail gwyllt" yn y Ddeddf Trwyddedu Sŵau. Roedd hyn er mwyn osgoi sefyllfa lle byddai'r un rhywogaeth yn cael ei hystyried yn wyllt mewn sŵ, ond wedi ei domestigeiddio mewn syrcas.[102]

**113.** Eglurodd swyddog y Gweinidog y gallai canllawiau cysylltiedig restru mathau o anifeiliaid, yn hytrach na rhywogaethau penodol, y gellid eu hystyried "wedi eu domestigeiddio" neu'n "wyllt" o dan y Bil.[103] Byddai hyn yn gyson â'r dull a fabwysiadwyd gan DEFRA yn ei *Zoo Licensing Act 1981: Guide to the Act's provisions (2012).*

**114.** Eglurodd y Gweinidog fod y pwerau i wneud rheoliadau o dan Adran 3 yn ddewisol ac nad oedd ganddi unrhyw gynlluniau i'w defnyddio ar hyn o bryd. Awgrymodd y byddai'n agored i ofyn am gyngor arbenigol wrth wneud rheoliadau, pe bai'n credu bod angen hynny.[104]

## Ein barn ni

Rydym yn fodlon ar y cyfan ag ystyr "anifail gwyllt" a nodir yn y Bil. Fodd bynnag, mae gwahaniaethau barn amlwg ymhlith y rhai sy'n cefnogi'r gwaharddiad, a'r rhai sy'n ei wrthwynebu, ynghylch a yw anifeiliaid gwyllt sy'n cael eu geni a'u magu mewn syrcasau teithiol yn cael eu hystyried "wedi eu domestigeiddio".

[99] Cofnod y Trafodion, paragraff 297, 2 Hydref 2019
[100] Cofnod y Trafodion, paragraff 297, 2 Hydref 2019
[101] Cofnod y Trafodion, paragraff 294, 2 Hydref 2019
[102] Cofnod y Trafodion, paragraff 88, 18 Gorffennaf 2019
[103] Cofnod y Trafodion, paragraff 157, 10 Hydref 2019
[104] Cofnod y Trafodion, paragraff 159, 10 Hydref 2019

Er ein bod yn nodi rhesymeg y Gweinidog dros gael gwared ar ystyr “wedi eu domestigeiddio”, arweiniodd hyn at greu rhywfaint o ansicrwydd. Mae’n ymddangos bod diffinio’r term mewn ffordd sy’n darparu sicrwydd ac yn cyflawni bwriad polisi’r Bil yn peri problemau. Ar ôl pwyso a mesur, credwn ei bod yn well gadael “wedi eu domestigeiddio” heb ei ddiffinio yn yr achos hwn.

Fodd bynnag, rhaid i Lywodraeth Cymru ddarparu canllawiau cynhwysfawr i egluro ystyr “anifail gwyllt” ac “wedi eu domestigeiddio” er mwyn sicrhau dehongliad cywir a chyson o’r termau hyn. Er bod y Gweinidog wedi ymrwymo i wneud hyn, nid yw’r Bil yn cynnwys darpariaeth ar gyfer canllawiau statudol. Felly, nid yw’n eglur beth fydd statws canllawiau yn y dyfodol. Dylai’r canllawiau i gefnogi’r broses o weithredu’r Bil gael awdurdod statudol priodol.

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell bod y Bil yn cael ei ddiwygio i gynnwys darpariaeth i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau statudol i gefnogi’r broses o weithredu’r gwaharddiad. Dylai’r canllawiau hyn gael eu datblygu ar y cyd â rhanddeiliaid perthnasol, a’u cyhoeddi i gyd-fynd â dyddiad dod i rym y Bil.

**Argymhelliad 4.** Rydym yn argymell bod canllawiau statudol i gefnogi’r broses o weithredu’r gwaharddiad yn cynnwys canllawiau cynhwysfawr ar ystyr “anifail gwyllt” ac “wedi eu domestigeiddio”. Dylai hyn gynnwys enghreifftiau o’r mathau o anifeiliaid a fydd, ac na fyddant yn cael eu hystyried yn “wyllt”.

## 5. 3. Ystyr “syrcas deithiol”

**115.** Mae Adran 4 yn darparu bod “syrcas deithiol” yn golygu syrcas sy’n teithio o un man i fan arall at ddiben darparu adloniant. Gall Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau yn nodi math o ymgymeriad, gweithred o adloniant sydd i’w ystyried, neu ddim yn cael ei ystyried, fel syrcas deithiol. Byddai rheoliadau’n ddarostyngedig i’r weithdrefn gadarnhaol.

**116.** Gwnaed newidiadau ers y Bil drafft i symleiddio’r diffiniad i fynd i’r afael â phryderon ynghylch amwysedd.

**117.** Mae canllawiau drafft Llywodraeth Cymru ar y cynllun trwyddedu arfaethedig ar gyfer Arddangosfeydd Anifeiliaid yn diffinio Arddangosfa Deithiol o Anifeiliaid (MAE) fel:

> “Arddangosyn sy’n teithio o le i le i arddangos anifeiliaid, er enghraifft, mewn ysgolion, priodasau, partïon preifat, ffeiriau a digwyddiadau eraill lle mae cynulleidfa yn bresennol. Gallant ddychwelyd i leoliad parhaol bob nos; gall eraill fod yn fwy crwydrol eu natur.”

## Tystiolaeth gan randdeiliaid

**118.** Roedd safbwyntiau cymysg mewn tystiolaeth ar ystyr "syrcas deithiol". Roedd rhai o'r ymatebwyr yn fodlon bod yr ystyr yn glir ac y byddai'n cyflawni bwriadau polisi y Bil. Awgrymodd eraill fod diffyg eglurder ynghylch yr ystyr ac roeddent yn galw am fynd i'r afael â hyn.

**119.** Dywedodd ADI fod y term "syrcas deithiol" wedi'i ddiffinio mewn ffordd sy'n cael ei ddeall yn eang.[105] Roedd Circus Mondao a Rona Brown o'r farn bod yr ystyr a nodir yn y Bil yn briodol ac yn adlewyrchu dwy syrcas deithiol y DU yn gywir.[106]

**120.** Awgrymodd Mike Radford y dylid ystyried ymhellach p'un a ddylid diffinio'r ystyr yn gliriach. Tynnodd sylw at y ffaith, yn wahanol i ddeddfwriaeth arall y DU, nad yw'r Bil yn diffinio'r term "syrcas". Amlygodd hefyd fod dau ddiffiniad o "syrcas deithiol" yn neddfwriaeth y DU ar hyn o bryd.[107]

**121.** Canolbwyntiodd llawer o'r ymatebwyr ar y cydadwaith rhwng "syrcasau teithiol" ac Arddangosfeydd Teithiol o Anifeiliaid a fyddai'n dod o dan y cynllun trwyddedu arfaethedig, ac a oedd y Bil yn gwahaniaethu'n ddigonol rhwng y ddau.

**122.** Roedd BVA a BVZS yn fodlon ag ystyr "syrcas deithiol", yn benodol, ei bod yn ei gwneud yn glir nad oedd y gwaharddiad yn ymestyn i Arddangosfeydd Teithiol o Anifeiliaid. Nododd:

> "We also welcome the reassurance that the Bill will only apply to wild animals used in travelling circuses, avoiding any unintended consequences for other types of animal displays that may move to temporary locations, such as for educational purposes."[108]

**123.** Awgrymodd BFF y gallai gwaharddiad gynnwys Arddangosfeydd Teithiol o Anifeiliaid, er yn anfwriadol, a phwysleisiodd yr angen i wahaniaethu'n glir rhwng syrcasau teithiol ac arddangosfeydd teithiol o anifeiliaid. Nododd:

---

[105] Tystiolaeth ysgrifenedig WA 11, Animal Defenders International

[106] Cofnod y Trafodion, paragraffau 106-109, 2 Hydref 2019

[107] Tystiolaeth ysgrifenedig WA 22, Michael Radford OBE

[108] Tystiolaeth ysgrifenedig WA 05, Cymdeithas Filfeddygol Prydain a Chymdeithas Sŵolegol Filfeddygol Prydain

> "...there may be a need to distinguish between the use of animals in itinerant shows (where the animals live "on the road", as in a circus), and in shows that return to a home base daily or after a few days."[109]

**124.** Mynegodd Thomas Chipperfield bryder fod "syrcas deithiol" wedi'i ddiffinio'n llac ac y gallai, felly, beri risg bosibl i wahardd gweithgareddau eraill sy'n ymwneud ag anifeiliaid.[110]

**125.** Galwodd RSPCA Cymru[111] a Chyngor Caerffili[112] am ddiffinio "syrcas deithiol" yn dynnach i'w hatal rhag ailfrandio a pharhau i deithio dan rith addysg i osgoi'r gwaharddiad. Cododd Dr Humphreys bwyntiau tebyg. Fodd bynnag, roedd yn credu y dylai arddangosfeydd anifeiliaid sy'n defnyddio anifeiliaid gwyllt ddod o fewn cylch gwaith y Bil hwn.[113]

**126.** Mynegodd RSPCA Cymru bryder hefyd y byddai perfformiadau nad ydynt yn digwydd mewn pabell syrcas nodweddiadol yn cael eu caniatáu o dan ystyr gyfredol "syrcas deithiol". Cyfeiriodd at daith o arenâu fel enghraifft. Galwodd RSPCA Cymru am newid yr ystyr, gan gyfeirio at y diffiniadau a geir yn Neddf Lles Anifeiliaid 2005 Awstria ac yn Rheoliadau 2012 Lloegr.[114]

**127.** Pwysleisiodd sawl ymatebydd, gan gynnwys BFF ac RSPCA Cymru, yr angen am ganllawiau cysylltiedig i ddarparu eglurder pellach o'r gweithgareddau a fyddai'n cael eu cynnwys yn yr ystyr "syrcas deithiol". Yn benodol, i fynd i'r afael ag unrhyw ardaloedd amwys mewn perthynas ag Arddangosfeydd Teithiol o Anifeiliaid.

## Tystiolaeth gan y Gweinidog

**128.** Cydnabu'r Gweinidog fod ystyr "syrcas deithiol" yn wahanol i ystyr y ddeddfwriaeth gyfatebol yn yr Alban a Lloegr. Mae'n bwriadu cynhyrchu canllawiau manwl i gyd-fynd â chyflwyniad y Ddeddf i nodi'n glir y mathau o weithgarwch i'w hystyried yn syrcas deithiol.[115]

---

[109] Tystiolaeth ysgrifenedig WA 06, Born Free Foundation

[110] Cofnod y Trafodion, paragraff 321, 2 Hydref 2019

[111] Tystiolaeth ysgrifenedig WA 09, RSPCA Cymru

[112] Tystiolaeth ysgrifenedig WA 04, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

[113] Cofnod y Trafodion, paragraff 84, 19 Medi 2019

[114] Tystiolaeth ysgrifenedig WA 09, RSPCA Cymru

[115] Cofnod y Trafodion, paragraff 90, 18 Gorffennaf 2019

**129.** Eglurodd swyddog y Gweinidog y gellid defnyddio'r pŵer i wneud rheoliadau i gwmpasu senarios nad ydynt wedi'u rhagweld eto.[116]

**130.** Pan ofynnwyd i'r Gweinidog egluro'r gwahaniaeth cyfreithiol rhwng syrcas deithiol sy'n defnyddio anifeiliaid gwyllt ac Arddangosfa Deithiol o Anifeiliaid, dywedodd wrthym nad yw'n gwbl glir. Ychwanegodd:

> "…we're going to produce really detailed guidance to accompany the introduction of the Act. That will assist inspectors, it will assist the circuses themselves, and any other animal exhibits, and it will set out very clearly what types of activity are banned in travelling circuses."[117]

**131.** Eglurodd y Gweinidog pe bai syrcasau teithiol yn cael eu hailfrandio fel Arddangosfeydd Teithiol o Anifeiliaid, y byddent yn ddarostyngedig i ofynion y cynllun trwyddedu arfaethedig ar gyfer Arddangosfeydd Anifeiliaid. Dywedodd y byddai'n fater i awdurdodau lleol benderfynu a ddylid rhoi trwydded o dan y cynllun.[118]

## Ein barn ni

Rydym yn fodlon ar y cyfan ag ystyr "anifail gwyllt" a nodir yn y Bil. Fodd bynnag, rydym yn pryderu y gallai fod yn anodd, yn ymarferol, gwahaniaethu rhwng "syrcas deithiol" ac Arddangosfa Deithiol o Anifeiliaid. Gallai hyn arwain at rai mathau o weithgareddau yn dod o fewn y naill ystyr neu'r llall, yn dibynnu ar y dehongliad. Mae risg y gallai hyn danseilio effeithiolrwydd y Bil, neu wahardd yn anfwriadol rai mathau o weithgareddau y gellid yn rhesymol eu caniatáu o dan y cynllun trwyddedu arfaethedig ar gyfer Arddangosfeydd Anifeiliaid.

Y ffordd fwyaf priodol i liniaru'r risg hon yw darparu canllawiau cynhwysfawr ar ystyr "syrcas deithiol" a'r mathau o weithgareddau y bwriedir eu cynnwys yn y gwaharddiad. Dylai hyn alinio â'r canllawiau terfynol ar y cynllun trwyddedu Arddangosfeydd Anifeiliaid.

Fel y nodwyd yn flaenorol, dylai'r canllawiau i gefnogi'r broses o weithredu'r Bil fod yn statudol, eu datblygu ar y cyd â rhanddeiliaid perthnasol, a'u cyhoeddi i gyd-fynd â dyddiad dod i rym y Bil.

[116] Cofnod y Trafodion, paragraff 94, 18 Gorffennaf 2019

[117] Cofnod y Trafodion, paragraff 161, 10 Hydref 2019

[118] Cofnod y Trafodion, paragraff 163, 10 Hydref 2019

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell bod canllawiau statudol i gefnogi'r broses o weithredu'r Bil yn cynnwys canllawiau cynhwysfawr ar ystyr "syrcas deithiol" a'r mathau o ymgymeriad, gweithred o adloniant sydd i'w ystyried, neu nad yw'n cael ei ystyried, fel syrcas deithiol. Rhaid bod gwahaniaeth clir rhwng syrcasau teithiol ac Arddangosfeydd Teithiol o Anifeiliaid.

# 6. Gorfodi

**132.** Mae'r Atodlen (a gyflwynwyd gan Adran 5) yn rhoi pwerau i arolygwyr orfodi'r gwaharddiad a chreu troseddau lle mae person yn rhwystro arfer y pwerau hynny.

**133.** Mae'r pwerau gorfodi yn cynnwys pŵer i fynd i mewn i adeilad (gan gynnwys tir ac unrhyw le, gan gynnwys cerbyd, pabell neu strwythur symudol), heblaw anheddau. Darperir pwerau pellach i fynd i mewn i anheddau mewn rhai amgylchiadau.

**134.** Gall arolygwyr fynd â "phersonau eraill" i'r safle sy'n ymddangos i'r arolygydd yn briodol i gynorthwyo yn ei ddyletswyddau. Tra bod "personau eraill" yn cael eu gadael heb eu diffinio, mae'r Nodiadau Esboniadol yn darparu arbenigwr sŵolegol neu gwnstabl yr heddlu fel enghreifftiau.

**135.** Mae'r Atodlen yn nodi'r pwerau arolygu, chwilio ac atafael sydd ar gael i arolygydd. Mae'r rhain yn cynnwys, ymhlith pethau eraill, cymryd sampl o anifail ac atafael mewn eitem. Mae'r pŵer i atafael mewn anifail gwyllt wedi'i eithrio yn benodol.

**136.** Gwnaed newidiadau i'r Atodlen ers y Bil drafft i gael gwared ar y pŵer i gwnstabl yr heddlu stopio a chwilio cerbydau syrcas teithiol am dystiolaeth o'r defnydd o anifeiliaid gwyllt. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol, "ystyrir nad oes angen" y pŵer. Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn pwysleisio'r angen i gamau gorfodi fod yn "gymesur â'r drosedd".

## Tystiolaeth gan randdeiliaid

**137.** Roedd yr ymatebwyr yn fodlon ar y cyfan â'r darpariaethau gorfodi. Fodd bynnag, awgrymodd rhai y gellid egluro neu gryfhau'r darpariaethau.

**138.** Roedd cynrychiolwyr y diwydiant syrcas yn galw am i arolygwyr fod yn annibynnol ac â chymwysterau addas. Awgrymodd RSPCA Cymru y byddai'r angen am gyfranogiad milfeddyg yn ystod arolygiadau yn dibynnu ar yr amgylchiadau.[119] Roedd BFF yn rhagweld y byddai gweithiwr proffesiynol milfeddygol yn ymgymryd ag unrhyw samplu ymwthiol neu ymledol o anifeiliaid.[120]

[119] Cofnod y Trafodion, paragraff 141, 26 Medi 2019

[120] Cofnod y Trafodion, paragraff 142, 26 Medi 2019

**139.** Credai RSPCA Cymru y dylid grymuso llysoedd i wahardd troseddwyr rhag cadw anifeiliaid gwyllt, a allai atal troseddau mynych.[121] Byddai hyn yn gyson â Deddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus 1976. Mynegwyd barn debyg gan Freedom for Animals, a alwodd am bwerau i symud anifeiliaid o'r syrcas deithiol yn dilyn euogfarn am drosedd.[122]

**140.** Awgrymodd PETA y dylid ymestyn y pwerau archwilio i alluogi arolygydd i atafael mewn anifail mewn rhai amgylchiadau, er enghraifft, os oes rheswm i gredu ei fod yn sâl neu'n dioddef.[123] Mynegodd RSPCA Cymru, BFF a Dr Humphreys farn debyg.

**141.** Nid oedd Thomas Chipperfield yn credu bod tynnu anifeiliaid o syrcasau teithiol yn gosb gymesur oni bai bod pryder ynghylch lles anifeiliaid.[124]

**142.** Awgrymodd RSPCA Cymru y byddai ymestyn y pwerau mynediad i gwnstabliaid yr heddlu yn cryfhau gorfodaeth ymhellach ac yn sicrhau bod toriadau posibl yn cael eu hymchwilio mewn modd amserol.[125] Byddai hyn yn unol â'r Ddeddf gyfatebol yn yr Alban.

**143.** Honnodd PETA y dylai'r Bil gynnwys darpariaeth i droseddwyr mynych fod yn agored i ddedfryd gymunedol neu garchar.[126] Awgrymodd yn ddiweddarach y dylai'r gosb fod yn gyson â deddfwriaeth debyg, megis Deddf Lles Anifeiliaid 2006 (Deddf 2006), lle gallai person a gafwyd yn euog o achosi dioddefaint diangen i anifail fod yn destun dedfryd o garchar neu ddirwy o £20,000. Roedd PETA o'r farn y byddai hyn yn ataliad effeithiol.[127] Roedd RSPCA Cymru a BFF yn cytuno.[128]

**144.** Amlygodd sawl ymatebydd y gallai gorfodi fod yn heriol pe bai anifeiliaid gwyllt yn parhau i deithio gyda syrcasau teithiol oherwydd gallai fod yn fwy anodd penderfynu a gyflawnwyd trosedd. Roedd BFF yn cwestiynu sut y byddai arolygwyr yn gwahaniaethu rhwng anifail yn cael ei "arddangos" yn fwriadol ac yn anfwriadol i ffwrdd o babell y syrcas.[129]

---

[121] Tystiolaeth ysgrifenedig WA 09, RSPCA Cymru

[122] Tystiolaeth ysgrifenedig WA 02, Freedom for Animals

[123] Tystiolaeth ysgrifenedig WA 12, People for Ethical Treatment of Animals

[124] Cofnod y Trafodion, paragraff 403, 2 Hydref 2019

[125] Tystiolaeth ysgrifenedig WA 09, RSPCA Cymru

[126] Tystiolaeth ysgrifenedig WA 12, People for Ethical Treatment of Animals

[127] Cofnod y Trafodion, paragraff 148, 26 Medi 2019

[128] Cofnod y Trafodion, paragraffau 150-151, 26 Medi 2019

[129] Tystiolaeth ysgrifenedig WA 06, Born Free Foundation

## Tystiolaeth gan y Gweinidog

**145.** Eglurodd y Gweinidog "nid yw'r pwerau gorfodi hyn yn newydd ac maen nhw'n adlewyrchu'r pwerau mewn deddfau eraill".[130]

**146.** Credai'r Gweinidog fod cosb dirwy ddiderfyn yn gymesur ac nid oedd yn ystyried bod angen pŵer i arolygwyr atafael mewn anifail gan y byddai troseddau mynych yn annhebygol.[131]

**147.** Pwysleisiodd y Gweinidog fod yn rhaid i syrcasau teithiol sy'n cadw anifeiliaid yn dilyn y gwaharddiad wneud hynny yn unol â Deddf 2006.[132] Mae'r Ddeddf yn cynnwys pwerau i arolygwyr gymryd anifeiliaid sy'n dioddef, neu'n debygol o ddioddef os na chymerir camau.

**148.** Er bod y Gweinidog wedi cadarnhau ei bod wedi ystyried ymestyn y pwerau archwilio i gwnstabliaid yr heddlu, nid oedd yn rhagweld y byddent yn ymwneud â gorfodi'r ddeddfwriaeth hon. Eglurodd y gallai arolygydd ddod gyda heddwas, os oedd hynny'n briodol, a bod y Bil yn darparu ar gyfer hyn.[133]

**149.** Cydnabu'r Gweinidog y gallai penderfynu a gyflawnwyd trosedd pan oedd anifail yn cael ei "arddangos" y tu allan i babell y syrcas fod yn heriol. Dywedodd swyddog y Gweinidog:

> "If they're out to grass next to the big top, then arguably that could be a form of promoting the circus."[134]

**150.** Fodd bynnag, aeth swyddog y Gweinidog ymlaen i nodi:

> "....we wouldn't want to compromise the welfare of those animals if they need to be grazing...[owners] would have to ensure that, when they come to a specific site, they've got an area—and it could be part of the licensing conditions that you have to identify an area, maybe away from where the big top is, to allow these animals to demonstrate their five freedoms."[135]

---

130 www.senedd.cynulliad.cymru/documents/s94382/Response%20from%20the%20Minister%20for%20Environment%20Energy%20and%20Rural%20Affairs%20-%203%20October%202019.pdf

131 Cofnod y Trafodion, paragraff 176, 10 Hydref 2019

132 Cofnod y Trafodion, paragraffau 178-180, 10 Hydref 2019

133 Cofnod y Trafodion, paragraff 185, 10 Hydref 2019

134 Cofnod y Trafodion, paragraff 200, 10 Hydref 2019

135 Cofnod y Trafodion, paragraff 202, 10 Hydref 2019

**151.** Eglurodd y Gweinidog mai swyddog gorfodi awdurdodau lleol fyddai'n gwneud dyfarniad ar hynny, ac y bydd canllawiau clir ar gael.[136]

## Ein barn ni

Mae'r drosedd a grëwyd gan y Bil yn ymwneud â "defnyddio" anifeiliaid gwyllt, ac rydym o'r farn bod dirwy yn gosb briodol. Ymdrinnir ag unrhyw bryderon mewn perthynas â lles anifeiliaid gwyllt sy'n cael eu cadw gan syrcasau teithiol yn dilyn y gwaharddiad o dan y ddeddfwriaeth bresennol ar gyfer lles anifeiliaid. Mae hyn yn cynnwys pwerau i arolygwyr fynd ag anifeiliaid i feddiant yn ogystal â thrafodiadau gwahardd yn achos camdriniaeth.

Rydym yn pryderu, yn ymarferol, y gallai fod yn anodd i arolygwyr wahaniaethu rhwng achosion pan fydd anifail gwyllt yn cael ei arddangos yn "fwriadol" a'i weld yn "anfwriadol". Rhaid i'r gwaharddiad beidio ag atal syrcasau teithiol rhag caniatáu i'w hanifeiliaid fod y tu allan at ddibenion cyfreithlon, fel pori neu ymarfer corff. Gallai gwneud hynny beryglu lles yr anifeiliaid hyn, a fyddai'n ganlyniad annerbyniol o'r gwaharddiad. Rydym yn croesawu bwriad y Gweinidog i gyhoeddi canllawiau ar y mater hwn.

**Argymhelliad 6.** Rydym yn argymell bod canllawiau statudol i gefnogi'r broses o weithredu'r Bil yn cynnwys canllawiau cynhwysfawr ar pryd y byddai "arddangos" anifeiliaid gwyllt y tu allan i brif arena'r syrcas mewn modd llai anffurfiol yn drosedd. Rhaid i'r canllawiau egluro na fyddai anifeiliaid gwyllt sydd yn yr awyr agored at ddibenion cyfreithlon ond sy'n weladwy gan y cyhoedd, yn drosedd.

[136] Cofnod y Trafodion, paragraff 206, 10 Hydref 2019

# 7. Diwygiadau sy'n ymwneud â thrwyddedu syrcasau

**152.** Mae Adran 8 yn diwygio Deddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus 1976 (Deddf 1976) a Deddf Trwyddedu Sŵau 1981 (Deddf 1981), a'i heffaith yw gwneud newidiadau i'r drefn drwyddedu ar gyfer syrcasau (teithiol a sefydlog).

**153.** Ar hyn o bryd, mae syrcasau (teithiol a sefydlog) wedi'u heithrio o'r Deddfau. Mae'r Bil yn dileu'r eithriadau hyn. Effaith hyn yw y bydd angen trwydded o dan Ddeddf 1976 ar unrhyw syrcas yng Nghymru sy'n cadw anifail gwyllt peryglus oni bai ei fod yn cael ei gynnwys yn Neddf 1981.

## Tystiolaeth gan randdeiliaid

**154.** Dywedodd RSPCA Cymru fod y gofyniad i syrcasau gael trwydded o dan Ddeddf 1976 yn cynnig rheolaethau a chraffu ychwanegol ar gadw anifeiliaid.[137]

## Tystiolaeth gan y Gweinidog

**155.** Eglurodd swyddog y Gweinidog mai un o'r rhesymau dros gael gwared ar yr eithriadau o Ddeddf 1981 a Deddf 1976 oedd cau'r bylchau lle gallai syrcas yng Nghymru gadw anifail gwyllt a chael ei eithrio rhag gorfod cael trwydded.[138]

**156.** Eglurodd hefyd, yn dilyn y gwaharddiad, y byddai angen trwyddedu syrcasau teithiol sy'n dewis cadw eu hanifeiliaid o dan Ddeddf 1976 pe bai'r anifeiliaid hynny'n cael eu dosbarthu fel rhai "peryglus" o dan y Ddeddf.[139]

## Ein barn ni

Rydym yn nodi diben ac effaith arfaethedig y diwygiadau i Ddeddf 1976 a Deddf 1981, ac rydym yn fodlon ar y darpariaethau hyn.

**Argymhelliad 7.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod syrcasau sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y newidiadau mewn gofynion trwyddedu sy'n deillio o Adran 8 y Bil yn ymwybodol o'r newidiadau hynny, ac yn deall eu goblygiadau.

---

[137] Tystiolaeth ysgrifenedig WA 09, RSPCA Cymru

[138] Cofnod y Trafodion, paragraff 55, 18 Gorffennaf 2019

[139] Cofnod y Trafodion, paragraff 37, 18 Gorffennaf 2019

# 8. Dod i rym

**157.** Mae Adran 12 yn darparu y bydd darpariaethau'r Bil yn dod i rym ar 1 Rhagfyr 2020. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol, byddai hyn yn darparu digon o amser i syrcasau teithiol addasu eu gweithredoedd ar gyfer y tymor teithiol canlynol.

## Tystiolaeth gan randdeiliaid

**158.** Galwodd RSPCA Cymru, ADI a Freedom for Animals am ddyddiad dod i rym sy'n gynharach. Roeddent yn honni bod hen bryd cyflwyno'r gwaharddiad ac y byddai'n cael ei gyflwyno'n sylweddol ar ôl y gwaharddiad yn yr Alban a Lloegr. Byddai hyn yn caniatáu tymor teithio arall i syrcasau teithiol y DU yng Nghymru. Roedd Freedom for Animals o blaid dyddiad rhesymol ond llawer cynharach.[140]

## Tystiolaeth gan y Gweinidog

**159.** Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor y byddai'n sicr yn bosibl i'r Bil ddod i rym yn gynharach. Fodd bynnag, roedd am osgoi cyflwyno'r gwaharddiad pan oedd syrcasau ar daith, a oedd fel arfer rhwng mis Mawrth a mis Tachwedd.[141]

## Ein barn ni

**160.** Rydym yn cydnabod y pryderon ynghylch amseriad y gwaharddiad, a'r galwadau i gyflwyno'r gwaharddiad yn gynharach yn 2020. Byddai amser a ganiateir ar gyfer craffu deddfwriaethol ar y Bil yn darparu cwmpas cyfyngedig i'r dyddiad dod i rym gael ei gyflwyno'n gynharach. O ystyried hyn, a goblygiadau ymarferol cyflwyno'r gwaharddiad yn ystod y tymor teithio, rydym yn fodlon bod y dyddiad dod i rym yn rhesymol ac yn briodol.

[140] Tystiolaeth ysgrifenedig WA 02, Freedom for Animals

[141] Cofnod y Trafodion, paragraff 247, 10 Hydref 2019

# 9. Effaith y gwaharddiad ar anifeiliaid

**161.** Nid oes unrhyw ddarpariaethau yn y Bil ynglŷn â dyfodol yr 19 o anifeiliaid gwyllt a ddefnyddir ar hyn o bryd mewn syrcasau teithiol yn y DU, yn dilyn y gwaharddiad. Efallai y bydd syrcasau teithiol yn dewis cadw eu hanifeiliaid, a pharhau i fynd â hwy ar daith.

## Tystiolaeth gan randdeiliaid

**162.** Mynegodd sefydliadau lles anifeiliaid, Dr Humphreys, a'r BVA a BVZS bryder ynghylch dyfodol yr 19 o anifeiliaid gwyllt a ddefnyddir ar hyn o bryd mewn syrcasau teithiol yn y DU yn dilyn y gwaharddiad. Honnodd ymatebwyr y byddai lles yr anifeiliaid yn cael ei gyfaddawdu pe byddent yn parhau i deithio gyda syrcasau, neu fel arall, yn cael eu gadael yn ystod y gaeaf.

**163.** Credai sawl ymatebydd y dylid ailgartrefu anifeiliaid yn dilyn y gwaharddiad, er enghraifft, mewn gwarchodfeydd.

**164.** Dywedodd Circus Mondao wrth y Pwyllgor y byddai'n niweidiol i'w hanifeiliaid gael eu tynnu i ffwrdd o'u teuluoedd. Mynegodd bryder hefyd y gallai'r gwaharddiad arwain at adael anifeiliaid yn ystod y gaeaf.[142] Fodd bynnag, cadarnhaodd Circus Mondao a Peter Jolly's Circus eu bod yn bwriadu cadw a pharhau i deithio gyda'u hanifeiliaid gwyllt yn dilyn y gwaharddiad.

## Tystiolaeth gan y Gweinidog

**165.** Gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidog pa fesurau yr oedd Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu rhoi ar waith i sicrhau nad oedd y gwaharddiad yn cael effaith niweidiol ar yr anifeiliaid gwyllt a ddefnyddir ar hyn o bryd mewn syrcasau teithiol yn y DU. Dywedodd y Gweinidog:

> "…it's up to the owners to decide what they want to do with their animals…But because other countries have gone before us, I would imagine that those sorts of decisions will have already been taken. So, it's their prerogative if they want to use their animals in a different way. As long as they do it within the law, it's entirely up to them."[143]

[142] Tystiolaeth ysgrifenedig WA 07, Circus Mondao

[143] Cofnod y Trafodion, paragraff 220, 10 Hydref 2019

## Ein barn ni

Mae'r ddwy syrcas deithiol yn y DU sy'n defnyddio anifeiliaid gwyllt ar hyn o bryd yn bwriadu cadw a pharhau i deithio gyda'u hanifeiliaid yn dilyn y gwaharddiad. Bydd y syrcasau hyn yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth bresennol ar gyfer lles anifeiliaid ac, mewn rhai achosion, gofynion trwyddedu newydd. Ni welwn unrhyw reswm i orfodi gofynion pellach arnynt.

Os bydd y Bil hwn yn pasio, bydd gwaharddiad ar waith yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Yn dibynnu ar ofynion trwyddedu yn y dyfodol, gallai fod yn fwy anodd i ddwy syrcas deithiol y DU gadw a pharhau i deithio gyda'u hanifeiliaid na'r hyn a ragwelir ar hyn o bryd. O ystyried eu bod wedi'u lleoli yn Lloegr, byddem yn disgwyl i Lywodraeth Cymru fodloni ei hun bod DEFRA wedi rhoi'r gefnogaeth a'r cyngor priodol ar waith ar gyfer y ddwy syrcas, sydd wedi nodi eu bod yn bwriadu cadw eu hanifeiliaid ar ôl i'r gwaharddiad gael ei weithredu.

**Argymhelliad 8.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adrodd yn ôl ar drafodaethau gyda DEFRA ynghylch y gefnogaeth a'r cyngor a fydd ar gael ar gyfer dwy syrcas deithiol y DU ynghylch opsiynau ar gyfer ailgartrefu eu hanifeiliaid gwyllt yn dilyn y gwaharddiad.

# Atodiad A: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar gael ar wefan y Pwyllgor.

| Cyfeiriad | Sefydliad |
|---|---|
| **WA01** | Unigolyn |
| **WA02** | Freedom For Animals |
| **WA03** | Dr Rebekah Humphreys, Darlithydd mewn Athroniaeth, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant |
| **WA04** | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili |
| **WA05** | British Veterinary Association and British Veterinary Zoological Society (BVZS) |
| **WA06** | Born Free Foundation |
| **WA07** | Circus Mondao |
| **WA07A** | Circus Mondao – tystiolaeth ychwanegol |
| **WA08** | The Self Help Group for Farmers, Pet Owners and Others experiencing difficulties with the RSPCA (The SHG) |
| **WA09** | RSPCA Cymru |
| **WA10** | Professor Ron Beadle, Professor of Organisation and Business Ethics, Northumbria University |
| **WA11** | Animal Defenders International |
| **WA12** | Pobl dros Drin Anifeiliaid yn Foesegol (PETA) |
| **WA13** | Unigolyn |
| **WA14** | Unigolyn |
| **WA15** | Unigolyn |
| **WA16** | Unigolyn |
| **WA17** | Chris Barltrop, Cyn-gadeirydd Is-grŵp Syrcas Gweithgor Syrcas DEFRA |
| **WA17A** | Chris Barltrop – tystiolaeth ychwanegol |
| **WA18** | Unigolyn |
| **WA19** | Safonau Lles Rhyngwladol ar gyfer Anifeiliaid Perfformio (PAWSI) |

| | |
|---|---|
| **WA19A** | Safonau Lles Rhyngwladol ar gyfer Anifeiliaid Perfformio (PAWSI) – tystiolaeth ychwanegol |
| **WA20** | Unigolyn |
| **WA21** | Unigolyn |
| **WA22** | Mr Michael Radford OBE, Darllenydd ym maes Cyfraith Lles Anifeiliaid a Chyfraith Gyhoeddus, Prifysgol Aberdeen |
| **WA23** | Unigolyn |
| **WA24** | Thomas Chipperfield, Hyfforddwr Anifeiliaid |
| **WA25** | Dr Corsini, Doethur mewn Meddygaeth Filfeddygol ac yn cynrychioli Ente Nazinal Circhi |
| **WA26** | Unigolyn |
| **WA27** | Rachael Smith |

# Atodiad B: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Mae trawsgrifiadau'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar gael ar wefan y Pwyllgor.

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| **18 Gorffennaf 2019** | **Lesley Griffiths AC, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig,**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Tom Henderson,**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Richard Lewis,**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Jackie Price,**<br>Llywodraeth Cymru |
| **18 Medi 2019** | **Yr Athro Ron Beadle, Athro mewn Trefniadaeth a Moeseg Busnes,**<br>Prifysgol Northumbria<br>**Dr Rebekah Humphreys, Darlithydd mewn Athroniaeth,**<br>Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant<br>**Michael Radford, Darllenydd mewn Cyfraith Lles Anifeiliaid a Chyfraith Gyhoeddus,**<br>Prifysgol Aberdeen |
| **26 Medi 2019** | **Dr Carys Bennett, Uwch-swddog Cyswllt Corfforaethol,**<br>Pobl dros Drin Anifeiliaid yn Foesegol (PETA)<br>**Dr Ros Clubb, Uwch-reolwr Gwyddonol,**<br>RSPCA<br>**Dr Chris Draper, Pennaeth Lles Anifeiliaid a Chaethiwed,**<br>Born Free Foundation |
| **2 Hydref 2019** | **Rona Brown, Swyddog Cyswllt â'r Llywodraeth,**<br>Safonau Lles Rhyngwladol ar gyfer Anifeiliaid Perfformio (PAWSI)<br>**Carol MacManus, Cyfarwyddwr,**<br>Circus Mondao<br>**Chris Barltrop,**<br>Cyn-gadeirydd Is-grŵp Syrcas Gweithgor Syrcas DEFRA<br>**Thomas Chipperfield,**<br>Hyfforddwr Anifeiliaid |

| | |
|---|---|
| | **Giulia Corsini, DVM (Doethur mewn Meddygaeth Filfeddygol),**<br>yn cynrychioli Ente Nazinal Circhi |
| **10 Hydref 2019** | **Lesley Griffiths AC, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig,**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Tom Henderson,**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Richard Lewis,**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Jackie Price,**<br>Llywodraeth Cymru |